# Ymatal a phobl ifanc

Arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

**Mai 2016**

© Hawlfraint y Goron 2016
Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth yma (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, yn unol ag amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi manylion am hawlfraint gwybodaeth trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r sawl sydd wedi darparu cymorth, cyngor a chydweithrediad yn ystod yr arolygiad hwn, ni fyddai wedi bod yn bosib hebddynt. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Dr. Monica Barry a'r Athro Fergus McNeill am eu haelioni wrth gwrdd â'r prif arolygydd yn ystod cyfnod cwmpasu'r arolygiad. Rhaid diolch hefyd i'r Dr. Hannah Smithson a weithredodd fel ein darllenwraig beirniadol ar gyfer yr adroddiad hwn.

Rhaid diolch yn benodol i staff a rheolwyr y chwe Thîm Troseddau Ieuenctid yr ymwelom â hwy. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i'r holl blant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr a gymerodd ran yng nghyfweliadau'r arolygiad.

| | |
|---|---|
| **Prif Arolygydd** | Colin Barnes, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Y Tîm Arolygu** | Leigh Dunkerton, *Lleoliad tymor byr*<br><br>Avtar Singh, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |
| **Gwasanaethau Cefnogi Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi** | Adam Harvey, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogi*<br>Pippa Bennett, *Swyddog Gwasanaethau Cefnogi*<br><br>Oliver Kenton, *Swyddog Ymchwil*<br><br>Alex Pentecost, *Rheolwr Cyfathrebu* |
| **Prif Arolygydd Cynorthwyol** | Alan MacDonald, *Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi* |


Nodwch - trwy gydol yr adroddiad hwn mae'r enwau y cyfeirir atynt yn yr esiamplau o arfer wedi cael eu haddasu i ddiogelu hunaniaeth yr unigolyn.

## Rhagair

'Ymatal yw'r broses o ymwrthod rhag troseddu ymysg y sawl a oedd eisoes wedi ymrwymo mewn patrwm parhaus o droseddu'[1].

Mae theorïau ymatal wedi cael dylanwad cynyddol ar bolisïau ac arferion prawf gyda throseddwyr sy'n oedolion. Mewn cyferbyniad, mae ymchwil a thystiolaeth yn fwy cyfyngedig am ymataliad ieuenctid ac nid oes unrhyw un diffiniad unedig, y cytunir arno. I ychwanegu at y sail dystiolaeth, rydym wedi asesu effeithiolrwydd arfer mewn Timau Troseddau Ieuenctid (YOTs) ar draws y prif themâu y mae ymchwil ar ymataliad wedi'i nodi fel rhai pwysig wrth gefnogi llwybrau plant a phobl ifanc i ffwrdd o droseddu.

Yn ystod blynyddoedd diweddar, mae llwyth gwaith statudol YOTs wedi gostwng yn sylweddol, ac mae'r sefyllfa o ran cyllid ac, yn aml, cysondeb staff yn debyg. Ochr yn ochr â phrinder ymchwil, mae'n bosib iawn bod y newidiadau hynny wedi effeithio ar y graddau y mae YOTs yn gallu bwrw ymlaen ag ymataliad ieuenctid, a gwneud hynny'n fedrus. Yn yr arolygiad hwn, fe ddarganfuom yn glir bod gan nifer fechan o reolwyr achos sylfaen a dealltwriaeth dda o theori ymatal. Roeddent yn gallu cyfeirio at ymchwil berthnasol a nodi rhai o'r syniadau a goblygiadau allweddol ar gyfer yr arfer. Nid oedd mwyafrif y staff, fodd bynnag, yn hyfforddedig mewn theori ymatal ac roeddent yn ansicr o ran sut gellir rhoi cysyniadau ac ymagweddau allweddol ar waith.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cadarnhau mai, fel gydag oedolion, ymagweddau personol sy'n gweithio orau - y rheini sy'n cymryd rhyw ac ethnigrwydd i ystyriaeth, er enghraifft. Yn yr arolygiad hwn, fe ddarganfuom fod dulliau effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc yn briodol ar gyfer yr oedran, ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o anghenion, hanes ac amgylchiadau'r unigolyn, er enghraifft, statws Derbyn Gofal.

Yn nodedig, fe nododd y sawl yn ein harolygiad a oedd yn llwyddiannus yn ymatal rhag troseddu bwysigrwydd perthynas ymddiriedus, agored a chydweithredol gyda gweithiwr YOT neu weithiwr proffesiynol arall, gan ei nodi fel y ffactor mwyaf yn eu cyrhaeddiad. Fe ddarganfuom fod gweithwyr YOT yn gyffredinol yn gweithio'n galed i gyflawni hynny, er nid oedd bob tro'n bosib ffurfio'r berthynas.

Barn gymysg oedd gan y bobl ifanc hynny a oedd yn parhau i droseddu ac oedd wedi cael profiad o gyfiawnder adferol. Ar ben hynny, roedd rhai rheolwyr achos yn amwys am waith gwneud iawn. Roedd plant a phobl ifanc weithiau'n cael eu slotio i mewn i brosiectau cyfredol nad oedd rheolwyr achos yn credu fyddai'n effeithiol ar gyfer y plentyn neu berson ifanc, ac roedd rheolwyr achos yn adrodd am dreulio llawer gormod o amser yn 'gwthio' plant a phobl ifanc trwy waith di-dâl, gyda chamau gorfodaeth yn aml yn dilyn. Ar gyfer y plant a phobl ifanc hynny, nid oedd gwaith di-dâl wedi bod yn effeithiol o ran hyrwyddo ymataliad er gwaethaf yr ymdrech a'r gost sydd ynghlwm mewn gwneud iddo ddigwydd, tra bod gan y sawl sy'n ymatal brofiadau llawer mwy cadarnhaol yn gyffredinol.

Fe ddarganfuom rai arferion ymatal da a rhai esiamplau ardderchog. Mae ein barn gyffredinol, fodd bynnag, yn siomedig. Fe ddarganfuom waith da i adeiladu a chynnal *perthnasau* cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc. Fe ddarganfuom hefyd ychydig dystiolaeth i awgrymu bod y mwyafrif yn cael eu cefnogi i *fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol* (er enghraifft, gwaharddiad o'r ysgol). Mewn cyferbyniad, roedd y canlyniadau ar draws y prif themâu ymatal eraill lawer yn fwy siomedig gan ein harwain i ddod i'r casgliad nad oedd gwaith ymatal, yn gyffredinol, yn ddigon effeithiol yn y mwyafrif o achosion.

---


[1] Maruna, S (2001) *Making Good: How Ex-Convicts Reform and Rebuild Their lives.* Washington, DC: APA Books.

Ar ben hynny, mae'r farn a fynegwyd gan gyn ddefnyddwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth cyfredol a'u rhieni/gofalwyr yn yr adroddiad hwn yn bwerus, ac yn rhoi mewnwelediad i ymarferwyr a rheolwyr ar y ffordd orau o dorri'r cylch o droseddu dro ar ôl tro.

Ers cynnal y gwaith maes, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid wedi parhau gyda'r gwaith o roi fframwaith asesu a chynllunio AssetPlus ar waith yn genedlaethol. Unwaith bydd y gwaith wedi'i gwblhau, bydd AssetPlus yn helpu pob YOT i bersonoli cefnogaeth ymatal ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'n seiliedig ar egwyddorion theori ymatal, ac yn debygol o wella asesiad a gwaith ymarferwyr y YOT gyda phlant a phobl ifanc[2]. Mae pob aelod o staff yn y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wedi cwblhau, neu ar fin cwblhau'r modiwl hyfforddiant Sylfaen Asesu a Chynllunio Ymyrryd ar y System Ddysgu Cyfiawnder Ieuenctid Ryngweithiol. Mae hwn yn cynnwys deunyddiau am theori ymatal, ac mae hyfforddiant dilynol AssetPlus 'hyfforddi'r hyfforddwr' (hyfforddiant ystafell ddosbarth) yn cynnwys gwybodaeth ymarferol am roi dulliau ymatal ar waith a sut i'w cofnodi ar systemau rheoli achos y YOT.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried a yw'r modelau cyflwyno a threfniadau llywodraethu cyfredol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cyflawni gwerth am arian. Mae'r arolwg adrannol hefyd yn archwilio tystiolaeth ar beth sy'n gweithio i atal troseddu ieuenctid ac adsefydlu troseddwyr ifanc, a sut mae hyn yn cael ei roi ar waith yn ymarferol; sut mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn gallu rhyngweithio'n fwyaf effeithiol gyda gwasanaethau ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc. Gobeithiwn y bydd canfyddiadau ein harolygiad yn cynorthwyo'r arolwg.

Mae adroddiad interim Chwefror 2016 ar yr arolwg eisoes wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gwella canlyniadau addysgiadol i blant a phobl ifanc os ydynt yn y ddalfa neu'n cael eu goruchwylio yn y gymuned. Cytunwn: y dylid rhoi mwy o bwyslais mewn YOTs i ymrwymiad effeithiol mewn addysg a hyfforddiant. Mae hynny'n gyson gydag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar ymataliad. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill yn ymwneud â throseddu y dylid mynd i'r afael â hwy, er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant. Yn eu plith mae ysgogi cymhelliant plentyn neu berson ifanc i newid, dylanwadu ar eu ffordd o fyw yn gadarnhaol a mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Mae'r arolygiad hwn wedi tynnu sylw at rai o'r gwersi hanfodol sy'n rhaid eu dysgu os yw theori ymatal yn mynd i gael ei hymgorffori'n llawn yn y gwaith o gyflwyno gwasanaethau troseddau ieuenctid i blant a phobl ifanc.



**Y Fonesig Glenys Stacey**
*Prif Arolygydd Prawf ei Mawrhydi*
*Mai 2016*

[2] Dechreuodd hwn ar ôl i'n gwaith maes ar gyfer yr arolygiad ddod i ben, felly nid ydym wedi gallu gwerthuso ei effeithiolrwydd.

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Diolchiadau** | **X** |
| **Rhagair** | **X** |
| **Crynodeb o'r canfyddiadau** | **X** |
| **Argymhellion** | **X** |
| **1. Ymatal a phobl ifanc: cyd-destun yr ymchwil** | **X** |
| **2. Profiad cyn ddefnyddwyr gwasanaeth y YOT - y sawl sy'n ymatal** | **X** |
| **3. Profiad defnyddwyr gwasanaeth cyfredol - y sawl sy'n parhau** | **X** |
| **4. Gwybodaeth a dealltwriaeth o ymataliad** | **X** |
| **5. Sylwadau i gloi** | **X** |
| **Atodiad 1 - Geirfa** | **X** |
| **Atodiad 2 - Rôl yr arolygiaeth a chod ymarfer** | **X** |
| **Atodiad 3 - Cyfeiriadau** | **X** |

## Crynodeb o'r canfyddiadau

### Yr arolygiad

Diben yr arolygiad hwn oedd asesu effeithiolrwydd arferion mewn YOTs ledled wyth maes ble mae ymchwil ar ymatal wedi tynnu sylw at y ffaith ei fod yn arwyddocaol wrth gefnogi llwybr plant a phobl ifanc i ffwrdd o droseddu. Nid yw'r wyth maes o anghenraid yn annibynnol o'i gilydd. Dyma'r meysydd:

1. adeiladu perthnasau proffesiynol, ymrwymiad ac ail-ymrwymiad effeithiol, tystiolaeth go iawn o weithio ar y cyd
2. tystiolaeth o ymrwymo gyda chyd-destunau cymdeithasol ehangach, yn enwedig y teulu, ond hefyd cyfoedion, ysgolion, colegau, gwaith ayyb.
3. rheolaeth weithredol o anghenion amrywiaeth
4. effeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â 'rhwystrau strwythurol' allweddol (gwaharddiad o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, diffyg cyfranogiad, diffyg adnoddau, diffygion camddefnyddio sylweddau, gwasanaethau iechyd meddwl annigonol ayyb.)
5. creu cyfleoedd am newid, cyfranogiad ac integreiddiad cymunedol
6. ysgogi plant a phobl ifanc
7. mynd i'r afael â synnwyr plant a phobl ifanc o hunaniaeth a hunanwerth
8. defnydd adeiladol o ymagweddau adferol.

Roedd yr arolygiad hwn yn cynnwys tair prif ran:

- cyfweld â phlant a phobl ifanc nad oedd wedi ail-droseddu am gyfnod o 12 mis neu fwy ar ôl diwedd eu goruchwyliaeth statudol (y sawl sy'n ymatal). Roedd hyn er mwyn canfod eu safbwynt ar ba elfennau o'r oruchwyliaeth oedd wedi bod o'r cymorth mwyaf a lleiaf wrth gyflawni a chynnal ffordd o fyw ddi-drosedd.
- cyfweld â phlant a phobl ifanc oedd wedi ail-droseddu o fewn 12 ar ôl derbyn dedfryd gymunedol neu o garchar (y sawl sy'n parhau) a'u rhieni/gofalwyr a gweithwyr allweddol. Diben y cyfweliadau hyn oedd dysgu pa elfennau o'r oruchwyliaeth oedd wedi gweithredu fel rhwystrau i gyflawni ffordd o fyw ddi-drosedd.
- asesu cofnodion a dogfennaeth achosion defnyddwyr gwasanaeth cyfredol.

Dadansoddwyd y ffynonellau hyn o wybodaeth a thystiolaeth yn ein crynodebau adlewyrchol o achosion a luniodd y sail i farn arolygyddion ac effeithiolrwydd arfer ar draws yr wyth maes ymatal.

Dros gyfnod y gwaith maes, bu i'r arolygyddion gwrdd ag 16 cyn ddefnyddiwr gwasanaeth. Arolygwyd cyfanswm o 37 achos defnyddwyr gwasanaeth cyfredol gyda chyfarfodydd wyneb-yn-wyneb gyda 34 plentyn neu berson ifanc. Fe gyfwelom hefyd â 21 rhiant/gofalwr a 2 weithiwr allweddol o gartrefi plant.

### Canfyddiadau allweddol

Nododd cyn ddefnyddiwr gwasanaeth yr agweddau canlynol fel y rhai pwysicaf yn eu helpu i symud i ffwrdd o droseddu:

- perthynas gytbwys, ymddiriedus a chyson gydag o leiaf un gweithiwr. Nid y rheolwr achos dynodedig oedd y person yma o anghenraid ond, mewn nifer o achosion, gweithiwr proffesiynol arall ydoedd o fewn neu, yn llai aml, y tu allan i'r YOT.
- Perthnasau personol ystyrlone gyda theimlad o berthyn i deulu

- cefnogaeth emosiynol, cymorth ymarferol a lle roedd y gweithiwr yn amlwg yn credu yng ngallu'r plentyn neu berson ifanc i ymatal rhag troseddu
- y datblygiad o berthynas gref a/neu ddod yn rhiant
- newid grwpiau cyfoedion a ffrindiau
- ymyriadau a oedd yn darparu datrysiadau ar gyfer problemau i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd bywyd o ddydd i ddydd
- ymyriadau cyfiawnder adferol perthnasol wedi'u cynllunio'n dda.

Er yn gyffredinol yn gadarnhaol am eu profiadau gyda YOTs, nododd cyn ddefnyddiwr gwasanaeth hefyd bod rhai elfennau wedi bod o lai o gymorth ac wedi bod yn rhwystrau i symud i ffwrdd o droseddu. Yn eu plith roedd:

- rhaglenni ymddygiad tramgwyddus ffurfiol nad oedd yn bodloni'u hanghenion unigol
- perthynas wael gyda rheolwyr achos
- newid cyson o reolwr achos
- peidio mynd i'r afael â'u hanghenion adnabyddedig
- diffyg ymglymiad go iawn gyda'u rheolwr achos wrth gynllunio ar gyfer gwaith i leihau ail-droseddu
- amcanion yn y cynlluniau nad oedd wedi'u personoli ar gyfer eu hanghenion asesedig.

Yn yr arolygiad o achosion cyfredol, darganfuwyd:

- esiamplau o waith da yn cael ei wneud i gefnogi a hyrwyddo ymataliad
- roedd gwaith i adeiladu a chynnal perthnasau gweithio effeithiol gyda phlant a phobl ifanc yn gyffredinol yn dda
- roedd mwyafrif y plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i ymdrin â rhwystrau strwythurol
- roedd dulliau hunanasesu, megis 'Beth Wyt Ti'n Meddwl' gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yn cael eu cwblhau yn y mwyafrif o achosion, ond roedd barn plant a phobl ifanc yn cael eu hadlewyrchu mewn llai nag un cynllun ym mhob pedwar
- er bod holiaduron dulliau dysgu'n cael eu cwblhau mewn bron tri achos o bob deg yn y sampl, cyfeirid atynt yn benodol mewn cynlluniau neu roeddent yn cael eu defnyddio mewn ymyriadau mewn dim ond un o bob pedwar o'r achosion hynny
- roedd problemau wedi bod gyda chydymffurfio mewn nifer o achosion ond mewn nifer fechan o achosion yn unig roedd rhwystrau i ymrwymo yn amlwg wedi cael eu hasesu. Doedd dim tystiolaeth bod plant a phobl ifanc wedi llofnodi'u cynlluniau ymyrraeth mewn bron un achos ym mhob pedwar
- roedd cynlluniau ymyrraeth i fynd i'r afael â rhwystrau adnabyddedig i ymrwymo ac ail-ymrwymo yn bodoli mewn dim ond un o bob tri achos perthnasol
- roedd nifer o'r plant a’rbobl ifanc hynny a oedd wedi derbyn nifer o orchmynion llys dros amser yn destun yr un ymyriadau neu rai tebyg, ac roeddent o'r farn nad oeddent bellachyn addas ar gyfer eu hoedran, nad oeddent yn eu diddori,, eu bod yn ailadroddus neu ddim yn eu hysgogi.

Mewn cyfweliadau gyda rheolwyr achos fe ddarganfuom:

- diffyg gwybodaeth fanwl am theori ymatal yn gyffredinol a sut i'w roi ar waith yn ymarferol, nad oedd yn cael ei helpu gan y ffaith bod mwyafrif y rheolwyr achos wedi derbyn braidd ddim hyfforddiant ar y pwnc hwn

- tystiolaeth bod rheolwyr achos yn aml yn cyfateb ymataliad â ffocws cul ar droseddau neu ymagwedd ffactor-risg at ymarfer
- roedd rheolwyr achos weithiau'n teimlo dan bwysau gan eu rheolwyr i ganolbwyntio ar gyflwyno ymyriadau yn canolbwyntio ar droseddau y gallent ddangos tystiolaeth ar eu cyfer yn hytrach na chanolbwyntio ar adeiladu perthynas gyda defnyddwyr gwasanaeth.

## Argymhellion

### Dylai rheolwyr Tîm Troseddau Ieuenctid sicrhau bod:

1. y cynllunio ar gyfer ymrwymiad ac ail-ymrwymiad gyda phlant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn glir ac yn ganolog i'r broses goruchwylio; anghenion gwaith teuluol sydd wedi'u hasesu yn cael eu cyflwyno a bod gwaith i asesu, mynd i'r afael â, a rheoli dylanwad cyfoedion yn cael ei gynnal yn gywir (maes ymatal 2)
2. anghenion amrywiaeth pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu hasesu'n llawn ac yn weithredol a bod strategaethau ymarferol yn eu lle i gefnogi canlyniadau cadarnhaol (maes ymatal 3)
3. cyfleoedd yn cael eu datblygu i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol i'w hyrwyddo i chwarae mwy o rôl yn eu cymunedau (maes ymatal 5)
4. barn plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu ceisio'n weithredol a'u cynnwys mewn asesiadau, cynlluniau ac adolygiadau; bod cynlluniau ymyrraeth yn cael eu llofnodi'n systematig; bod plant a phobl ifanc yn dysgu datrysiadau ar gyfer problemau y gallant eu rhoi ar waith yn unigol; pob ymyriad yn dechrau o gryfderau'r plentyn neu berson ifanc a bod technegau cyfweld i ysgogi yn cael eu cynnwys mewn arferion (maes ymatal 6)
5. cefnogaeth ymarferol yn cael ei roi mewn modd amserol i blant a phobl ifanc a bod canmoliaeth, gwobrwyo a dathlu cyrhaeddiad wedi'i integreiddio yn y daith oruchwylio (maes ymatal 7)
6. gweithgareddau adferol yn canolbwyntio ar ganlyniadau; bod ymyriadau wedi'u personoli ar gyfer anghenion y plant a phobl ifanc a bod ymyriadau yn oed-benodol (maes ymatal 8)
7. hyfforddiant ar theori ymatal yn cael ei ddarparu i bob aelod staff sydd ei angen, a bod ei arfer yn cael ei werthuso.

*Rydym yn ymwybodol o waith a gynhaliwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid rhwng y gwaith maes a chyhoeddi'r adroddiad hwn a bod fframwaith AssetPlus yn gallu helpu rheolwyr Timau Troseddau Ieuenctid i gyflawni'r argymhellion a nodir uchod.*

### Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:

8. yn dilyn rhoi AssetPlus ar waith, gynnal asesiad o'r wybodaeth am theori ymatal ymhlith ymarferwyr a defnyddio canlyniadau hyn i adolygu'u strategaeth hyfforddiant a'r deunyddiau hyfforddiant sydd ar gael i'w defnyddio. Nodwn, a chroesawn, y defnydd o Adolygiadau Ar Ôl Gweithredu lle mae cwestiwn penodol yn gofyn i staff am eu gwybodaeth o ymataliad yn dilyn eu hyfforddiant AssetPlus☐
9. adolygu cyfarwyddyd arfer y YOT a thalu mwy o sylw at theori ymatal; gan gynnwys mesurau i hyrwyddo cydweithio gwirioneddol ar y cyd gyda phlant a phobl ifanc, a gweithio gydag aelodau staff a rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol allweddol.

# 1. Ymatal a phobl ifanc: y cyd-destun ymchwil

**Cyflwyniad**

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r ymchwil ar ymataliad yn gyffredinol ac mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Yna mae'n amlinellu'r cefndir i'r arolygiad hwn, ei gwmpas a'i fethodoleg. Yn ganolog i'r arolygiad roedd cyfweliadau gyda chyn ddefnyddwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth cyfredol. Roedd y rhain yn rhoi cyfle i arolygyddion gasglu a dadansoddi disgrifiadau ôl-syllol a chyfoes o brofiadau plant a phobl ifanc o wasanaethau YOT.

**Crynodeb**

- Er bod theori ymatal wedi dylanwadu ar arferion yn y sector oedolion, mewn cyferbyniad, does dim llawer o ymchwil benodol ar ymatal a phlant a phobl ifanc.
- O ganlyniad, does dim cytundeb cyffredinol o ran beth yw 'arfer ymatal gorau' ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r ymchwil yn adlewyrchu pwyslais gwahanol ar yr hyn a ystyrir yn effeithiol wrth gefnogi plant a phobl ifanc i ymatal.
- Roedd llais defnyddwyr gwasanaeth yn ganolog i fethodoleg yr arolygiad hwn. Fe geisiwyd barn cyn ddefnyddiwr gwasanaeth nad oedd wedi troseddu am dros 12 mis a rhai defnyddwyr gwasanaeth cyfredol a'u rhieni/gofalwyr.

1.1 Does dim un diffiniad neu ddealltwriaeth unedig o ymatal sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc neu o ran beth yw'r mecanweithiau enewid allweddol. Dros amser, mae theorïau ymatal wedi cyflwyno damcaniaethau amrywiol, gan arwain at amrywiaeth mewn ymagweddau sydd, yn eu tro, yn rhoi pwyslais ar ffactorau gwahanol. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- aeddfedu (Rutherford, 1985)
- dewis ac ewyllys rhesymegol (Clarke a Cornish, 1985)
- datblygu cysylltiadau cymdeithasol (Sampson a Laub, 2001)
- hunaniaeth (Maruna, 2001)
- trawsnewidiad gwybyddol (Giordano *et al.*, 2002).

1.2 Mae'r ymchwil hefyd yn gwahaniaethu rhwng ymataliad **sylfaenol** ac **eilradd**. Mae'r cyntaf yn cyfeirio at roi diwedd ar unwaith ar weithgaredd troseddol yn y tymor byr neu ganolig. Mae'r ail yn disgrifio'r symudiad mwy hir dymor i ffwrdd o ffordd dramgwyddus o fyw a throseddu y gellir ei fesur dros sawl blwyddyn, neu hyd yn oed ddegawdau.

1.3 O ystyried bod yr arolygiad hwn yn archwilio gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn benodol, ymataliad sylfaenol oedd y prif ffocws. Roedd nifer o'r cyn ddefnyddwyr gwasanaeth a gyfwelwyd, fodd bynnag, yn rhai nad oedd wedi ail-droseddu am gyfnod sylweddol (bron pedair blynedd mewn un achos).

1.4 Er nad oes efallai un 'theori unedig' ynghylch ymataliad, mae ychydig gysondeb o ran disgrifio ymataliad fel proses ddeinamig, barhaus yn hytrach na digwyddiad penodol. Mae cytundeb cynyddol ei bod yn cynnwys cydblethiad cymhleth o ffactorau unigol, teuluol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Credai Canton (2012) bod ymataliad yn rhywbeth na ellid ei ganlyn fel amcan penodol, ond yn rhywbeth a oedd yn cael ei gyflawni trwy gael ffordd benodol o fyw.

1.5 Nid yw theori ymatal yn syml, neu hyd yn oed yn bennaf, yn fater o unigolyn yn stopio troseddu, neu'n fater o gyflwyno ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth. Nid yw hynny'n

golygu nad yw ymataliad a'r safbwyntiau hyn yn gydnaws. Mae gan ymagweddau ymatal gwmpas ehangach, rhai sy'n ymgorffori cyfres amrywiol o 'rymoedd a dylanwadau' sy'n tanategu newid yn hytrach na moddau wedi'u targedu i gyflawni newid.

1.6 Dylai model crwn o ymatal gymryd y cyd-destun cymdeithasol ehangach o ymddygiad destun plant a phobl ifanc i ystyriaeth. Dylai gydnabod y pwysigrwydd sylfaenol o ymddiried mewn perthnasau proffesiynol fel modd o newid. Dylai gynnwys rhoi grym i'r unigolyn a gwell cynhwysiant cymdeithasol fel amcanion go iawn yn ogystal â gostwng ail-droseddu.

1.7 Mae ymchwil benodol mewn ymatal a phlant a phobl ifanc yn cynyddu (Barry, 2009, 2010; Gray, 2013). Mae mwyafrif y gwaith cyhoeddedig, fodd bynnag, wedi canolbwyntio ar droseddwyr sy'n oedolion. Golyga hynny bod diffyg llenyddiaeth sefydledig sydd a wnelo â llwybrau i blant a phobl ifanc sy'n mynd â hwy i ffwrdd o droseddu.

### Pobl ifanc ac ymatal

1.8 Mae theorïau ymatal wedi amrywio rhwng rhoi pwyslais ar aeddfedu, datblygu cysylltiadau cymdeithasol, dewis rhesymegol a thrawsnewidiad gwybyddol. Wrth ystyried plant a phobl ifanc ac ymataliad, gall fod yn naturiol edrych tuag at theorïau aeddfedol fel man cychwyn. Mae'r ffaith fod ymddygiad tramgwyddus yn tueddu i gynyddu yn ystod glasoed cynnar, yn cyrraedd uchafbwynt yn ystod glasoed hwyr ac yn y diwedd yn lleihau yn ystod y cyfnod cynnar o fod yn oedolyn wedi hen sefydlu. Mae'r cyswllt rhwng oedran a throsedd wedi cael ei ddisgrifio gan Moffitt (1993) fel y sylw empirig mwyaf cadarn a gyda'r lleiaf o ddealltwriaeth amdano ym maes troseddeg.

1.9 Mae Barry (2009, 2010) wedi cynnal ymchwil ansoddol helaeth gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Mae hi'n awgrymu mai'r prif ffactorau cynnal ar gyfer y sawl sy'n parhau i fyw ffordd dramgwyddus o fyw yw mynediad at yr arian a'r cyffuriau a ddaw gyda throseddu; peidio â chael lle diogel i fyw; dylanwad cyfoedion; y defnydd o alcohol a'r baich o gael cofnod troseddol sy'n cyfyngu ar gyfleoedd yn y dyfodol.

1.10 Pwysleisia Barry bwysigrwydd ffactorau strwythurol sy'n tanategu; camddefnyddio sylweddau, tlodi, digartrefedd/afleoliad a chofnod troseddol. Mae plentyn neu berson ifanc unigol yn annhebygol o allu goresgyn yr anawsterau hyn ar eu pennau eu hunain. Mae Barry yn parhau i fod yn feirniadol o ymagweddau sy'n awgrymu bod llwybrau allan o droseddu yn fater o newid unigol yn bennaf. Mae hi'n awgrymu rhannu ymchwil ar ymatal rhwng newid strwythurol sy'n cefnogi ymataliad, a newid goddrychol sy'n cael ei weld fel rhagflaenydd newid strwythurol.

1.11 Un o oblygiadau ymchwil Barry yw bod ymyriadau i hyrwyddo lleihau troseddu trwy newid unigol yn mynd i'r afael â, ar y gorau, dim ond hanner y broblem. Rhaid i blant a phobl ifanc hefyd gael cefnogaeth i'w helpu i gyflawni mwy mewn bywyd a stopio pryderu y byddant yn methu. Yn fyr, mae hefyd angen i'r sefyllfaoedd cymdeithasol y mae plant a phobl ifanc yn byw a gweithredu ynddynt fod yn ffocws i'r gwaith a dylai ymarferwyr ymrwymo'n weithredol i gael gwared â rhwystrau strwythurol i'r plentyn a'r person ifanc. Nid yw hynny'n golygu anwybyddu cyfrifoldeb yr unigolyn am droseddau blaenorol. Mae angen gwneud hyn, fodd bynnag, mewn moddau nad ydynt yn niweidio eu synnwyr ohonynt eu hunain fel plant a phobl ifanc sy'n gallu cael dyfodol gwahanol.

1.12 Yma gellir gweld pwysigrwydd hunaniaeth plentyn neu berson ifanc a'u disgrifiadau naratif. Fe dynnodd Maruna (2001) sylw at y rôl mae hunaniaeth yn ei chwarae mewn ymatal, gan ddadlau er mwyn llwyddo i ymatal, bod angen i droseddwyr ddatblygu hunaniaeth gymdeithasol drostynt eu hunain. Roedd ei astudiaethau'n dangos bod y sawl a oedd wedi llwyddo i ymatal wedi llwyddo i ddod i delerau gyda'u gorffennol, gan hyd yn oed ddysgu gwersi gwerthfawr o'u troseddu a'r cosbau, tra'n cymryd rheolaeth o'u bywydau cyfredol a meddu ar synnwyr clir o bwrpas ac ystyr.

1.13 Fe archwiliodd ymchwil Gray (2013) sut gallai'r YOTs ac asiantaethau partner gryfhau gwaith i fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol ehangach plant a phobl ifanc, fel yr awgryma Barry y dylent, er mwyn cefnogi ymatal rhag troseddu. Derbynia Gray dystiolaeth yr ymchwil sy'n dangos bod penderfyniadau i roi diwedd ar droseddu yn gynnyrch terfynol proses o drawsnewid ymagweddau a ffyrdd o feddwl, ynghyd â newidiadau cadarnhaol yn eu hamgylchiadau cymdeithasol.

1.14 Gan gytuno â Barry, mae Gray hefyd yn nodi bod dewisiadau a llwyddiant plant a phobl ifanc wrth ymdrin â'r peryglon sy'n gysylltiedig â throseddu yn y dyfodol yn aml yn gyfyngedig iawn gan rwystrau cymdeithasol ac nad oes ganddynt y sgiliau, pŵer neu ddylanwad i'w goresgyn eu hunain. Dyma rôl lle mae'r YOTs mewn sefyllfa dda i gefnogi plant a phobl ifanc, ond un yr awgryma Gray (gan grybwyll adroddiadau arolygiad blaenorol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi) nad ydynt bob tro yn ei gwneud yn dda.

1.15 Mae Gray yn dadlau bod diwylliant yn seiliedig ar dargedau yn ymwneud â chyfiawnder ieuenctid y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi arwain YOTs at roi mwy o bwyslais ar herio ymagweddau, ymddygiad a chyfrifoldeb unigolyn dros droseddu (yn debyg i feirniadaeth Barry), gyda llai o ffocws ar fodloni anghenion cymdeithasol a lles cymhleth. Bydd hefyd angen i unrhyw ddadansoddiad digonol o arfer ymatal ystyried mesurau sy'n cynnig ymyriadau wedi'u personoli at bob unigolyn er mwyn cael gwared â rhwystrau strwythurol, hyrwyddo newid unigol, datblygu sgiliau i facsimeiddio cyfleoedd a helpu i'w cynnal ar daith sy'n aml yn anodd tuag at ddealltwriaeth newydd o'u hunain a chael ffordd o fyw ddi-drosedd.

## Rhoi ymataliad ar waith mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc: y golofn ymarfer

1.16 Mae heriau sylweddol i sefydlu fframwaith credadwy a gosod set o feini prawf y gellir asesu arferion ymatal cadarnhaol yn eu herbyn. Sylwa McNeill a Weaver (2010), tra bod theori ac ymchwil ymatal yn gyfoethog o ran dadansoddi'r ffactorau a'r dylanwadau sy'n gallu tanategu newidiadau mewn troseddwyr, yn anffodus, nid yw'n cynnwys unrhyw fath o fframwaith ymarfer.

1.17 Er hyn, tra bod ymchwilwyr yn gyffredinol wedi bod yn amharod i ragnodi rhyw fath o lawlyfr arfer ar ymatal, mae eu gwaith yn darparu rhai seiliau cadarn ar gyfer ymagweddau at arfer sy'n debygol o gefnogi neu hyrwyddo ymataliad gyda phlant a phobl ifanc.

1.18 Mae'r rhain yn gorgyffwrdd yr wyth maes ymatal ac mae crynodeb ohonynt yma yn yr hyn y gellir ei alw, i ddefnyddio term McNeill a Weaver (2010), yn 'golofn ymarfer'. Nid yw'r golofn yn ffafrio moddau o weithio neu raglenni penodol na set glir o ymyriadau, ond at ddibenion yr arolygiad hwn gellir ei weld fel cyfeiriadedd neu ymagwedd at weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae, fodd bynnag, yn ymgorffori rhai o'r dimensiynau strwythurol ehangach a ffafrir gan Barry (2010) a Gray (2013). Ymhlith ei elfennau pwysicaf mae:

- adeiladu perthynas gadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc; ymrwymiad, clust i wrando, ysgogiad ac anogaeth
- realaeth; mae ymatal yn gallu bod fel proses neu daith, a rhaid disgwyl methiannau neu atglafychu. Mae sut yr ymdrinnir â'r rhain, felly, yn hanfodol
- cydnabod bod iaith yn bwysig; mae labelu plant a phobl ifanc (er enghraifft fel 'troseddwyr ifanc') yn gallu cadarnhau hunaniaethau tramgwyddus
- defnyddio'r ddalfa yn gynnil; mae'r ddalfa yn rhoi cyfyngiad difrifol ar gyfleoedd bywyd yn y dyfodol
- personoli; bydd y broses o ymatal yn wahanol i bob person ifanc - nid yw un dull yn gweithio i bawb

- cydnabod pwysigrwydd cyd-destunau cymdeithasol a'r angen i weithio y tu mewn iddynt; teulu, ysgol, cyfoedion, cymuned a gwaith
- hyrwyddo maddeuant; cydnabod a gwobrwyo ymgeision i roi'r gorau i droseddu; annog a chadarnhau newid cadarnhaol; defnyddio ymagweddau adferol
- creu cyfleoedd ar gyfer newid ac integreiddiad; y profiad o fod yn rhan o gymdeithas (o oedolion); gwobrwyo gweithgareddau adeiladol.

## Methodoleg

1.19 Nid oes modd rhagweld yn ddigamsyniol ymddygiad plant neu bobl ifanc unigol (rhai sy'n troseddu neu'n ymatal) yn y dyfodol, a gyda'r diffyg consenswS am ymataliad a beth sy'n cyfri fel arfer effeithiol, cyfyngedig yw'r amrediad o fethodoleg arolygu sy'n debygol o weithio'n ddigon da.

1.20 Mae ymchwil ymatal gyda phlant a phobl ifanc yn gyffredinol wedi bod yn seiliedig ar ansawdd ac yn ôl-syllol. Hynny yw, plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu/heb droseddu (y sawl sy'n parhau a'r sawl sy'n ymatal) yn cael eu cyfweld gan ddadansoddi'u hymatebion i adnabod beth, yn eu barn hwy, oedd y ffactorau/digwyddiadau mwyaf arwyddocaol sydd naill ai wedi'u helpu allan o ffordd dramgwyddus o fyw, neu i'r gwrthwyneb, wedi eu hysgogi i barhau. Fe addasom yr un ymagwedd ar gyfer yr arolygiad hwn - cynhaliwyd cyfweliadau gyda chyn ddefnyddiwr gwasanaeth nad oedd wedi ail-droseddu (naill ai yn blant neu bobl ifanc, neu'n oedolion) am gyfnod o 12 mis o leiaf - ond yn ychwanegol, roedd ein methodoleg yn cynnwys archwilio cofnodion achos.

1.21 Roedd nifer o fanteision i'r ymagwedd hon. Roedd ganddi ffocws go iawn ar 'ganlyniadau', oherwydd roedd gan grŵp o'r sawl sy'n ymatal yr amcan a ddymunwyd, sef peidio â throseddu. Yn ail, roedd cyfweliadau gyda'r 'sawl sy'n ymatal' yn ein caniatáu i archwilio beth, ym mhrofiad y plant a phobl ifanc, oedd yr agweddau pwysicaf a mwyaf effeithiol o oruchwyliaeth yr YOT iddyn nhw, ac ar gyfer grŵp y sawl sy'n parhau, beth oedd wedi rhwystro eu cynnydd yn eu hymdrechion i ymatal. Yn olaf, roedd yr ymatebion hyn yn ein caniatáu i ddatblygu llwybrau ymholi datblygedig mewn perthynas ag achosion cyfredol ac arfer gyfredol yr YOT.

1.22 I grynhoi, roedd methodoleg yr arolygiad yn cynnwys:

1. adnabod y ddau grŵp o blant a phobl ifanc:

   (a) Grŵp o gyn ddefnyddwyr gwasanaeth nad oedd wedi bod yn destun Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid (YRO) neu'r ddalfa nad oedd wedi ail-droseddu am o leiaf 12 mis ar ôl i'w gorchmynion ddod i ben (yn cyfateb i'r 'sawl sy'n ymatal' yn llenyddiaeth yr ymchwil).

   (b) Grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol yn destun gorchymyn atgyfeirio, YRO neu'r ddalfa a oedd wedi ail-droseddu o fewn 12 mis o dderbyn eu gorchymyn/cael eu rhyddhau o'r ddalfa (yn cyfateb i'r 'sawl sy'n parhau').

2. cynhaliwyd cyfweliadau gweddol strwythuredig gyda'r ddau grŵp o blant a phobl ifanc i ganfod, o'u safbwynt hwy, y digwyddiadau allweddol, ymyriadau neu ffactorau eraill a oedd o'r budd neu'rrhwystr mwyaf yn eu hymgais i beidio ag ail-droseddu.
3. cynhaliwyd cyfarfodydd gyda rhieni/gofalwyr nifer y plant neu bobl ifanc a oedd yn ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol hefyd
4. cyfweliadau gyda rheolwyr achos a gweithwyr proffesiynol eraill a oedd ynghlwm mewn achosion cyfredol
5. archwiliad o'r ffeiliau achos a dogfennau perthnasol arall.

1.23 Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng Ionawr ac Ebrill 2015. Dewiswyd chwech YOT er mwyn sicrhau bod gennym wasgariiad daearyddol rhesymol a chymysgedd o YOTs trefol a gwledig ar draws Cymru a Lloegr:

- Darlington
- Dinas Caerlŷr
- Camden
- Cwm Taf
- Gwlad yr Haf
- Dwyrain Sussex

1.24 Ar draws y 6 YOT yma, fe wnaeth arolygyddion gyfarfod â 16 cyn ddefnyddiwr gwasanaeth. Arolygwyd cyfanswm o 37 achos defnyddwyr gwasanaeth cyfredol gyda chyfarfodydd wyneb-yn-wyneb gyda 34 plentyn neu berson ifanc. Fe gyfwelsom hefyd â 21 rhiant/gofalwr a 2 weithiwr allweddol o gartrefi plant.

1.25 Wrth gwrs, mae'n bosib nad oedd yr ymatebwyr hyn yn gynrychiadol o bawb sy'n bodloni ein meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys yn yr arolygiad hwn. Ar ben hynny, nid yw'r fethodoleg yn caniatáu am ddadansoddiad canlyniadau meintiol, neu'n awgrymu ymagweddau a ffactorau penodol fel y rhai mwyaf effeithiol wrth gefnogi plant a phobl ifanc i ymatal rhag troseddu pellach.

## 2. Profiad cyn ddefnyddwyr gwasanaeth yr YOT - y sawl sy'n ymatal

**Cyflwyniad**

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r canfyddiadau o ran gyntaf yr arolygiad. Roedd y cam hwn yn bennaf yn cynnwys cyfweliadau rhannol strwythuredig gyda 16 cyn ddefnyddwyr gwasanaeth yr YOT. Roedd hefyd gan arolygyddion fynediad at gofnodion cyn achosion. Roedd y plant a phobl ifanc a gyfwelwyd heb droseddu am o leiaf 12 mis yn dilyn diwedd eu gorchymyn llys diwethaf ac felly roeddent yn cael eu disgrifio fel 'y sawl sy'n ymatal'.

Fe ddarparodd y sawl a gyfwelwyd adroddiadau adlewyrchol am eu profiadau o oruchwyliaeth YOT a disgrifio beth oedd wedi cael yr effaith mwyaf (a lleiaf) i'w helpu i symud i ffwrdd o droseddu.

**Crynodeb**

- Roedd cyn ddefnyddiwr gwasanaeth yn gyson yn nodi cael perthynas ymddiriedus, agored a chydweithredol gydag aelod o staff yr YOT neu un gweithiwr proffesiynol y tu allan i'r YOT fel y ffactor pwysicaf yn eu helpu i symud i ffwrdd o droseddu.
- Roedd cefnogaeth deuluol a dod yn rhiant yn cael eu nodi fel elfennau allweddol yn newid eu ffordd o fyw.
- Roedd cymorth a chefnogaeth ymarferol yn gyffredinol yn cael eu gwerthfawrogi yn fwy na rhaglenni ymyrryd ffurfiol yr YOT. Roedd trin dyheadau plant a phobl ifanc o ddifrif hefyd yn ganolog i gyflawni newid a oedd yn para.
- Roedd newid cyfoedion negyddol wedi bod yn hanfodol wrth barhau i beidio â throseddu. Yn y mwyafrif o sefyllfaoedd, roedd hyn wedi digwydd yn dilyn newidiadau eraill yn y ffordd o fyw yn hytrach nag unrhyw waith a wnaethpwyd gyda/gan yr YOT.
- Tra bod rhaglenni ffurfiol yn cael eu hystyried yn llai pwysig, roedd eu heffaith cadarnhaol yn cael eu cysylltu â'r canlynol:
  - (i) ymyriadau a oedd yn rhoi datrysiadau ar gyfer problemau iddynt i fynd i'r afael â materion (er enghraifft, rheoli dicter neu straen)
  - (ii) ymyriadau a oedd yn newid eu persbectif o'r dioddefwr (megis, ymyriadau adferol).

### Ffactorau yn cefnogi ymatal

2.1 Roedd cyn ddefnyddwyr gwasanaeth yn gyffredinol yn gadarnhaol am eu profiadau gyda'r YOT. Roedd nifer wedi cadw mewn cyswllt gyda'r YOT wedi i'r oruchwyliaeth statudol ddod i ben ac wedi cynnal perthynas dda gyda staff.

2.2 Yn gyffredinol, roedd dadansoddiad ymatebion y plant a phobl ifanc hyn yn adlewyrchu nifer o ganfyddiadau'r ymchwil academaidd. Y thema fwyaf cyson i ddod i'r amlwg o'r dadansoddiad o'r ymatebion oedd pwysigrwydd perthynas weithiol ymddiriedus, gadarnhaol gydag o leiaf un aelod o staff. Yn ddiddorol, mewn sawl sefyllfa, nid ei oruchwyliwr uniongyrchol neu'r rheolwr achos oedd y person yma o reidrwydd, ond roedd yn cynnwys nyrsys YOT, gweithwyr camddefnyddio sylweddau, cynghorwyr cyflogaeth, mentoriaid, eiriolwyr ac eraill.

**Dyfyniadau gan gyn ddefnyddwyr gwasanaeth**

*"Y peth pwysicaf wnaeth fy ngweithiwr oedd gwrando arnaf a gofyn beth roeddwn* ***i'n*** *hoffi gwneud a beth roeddwn* ***i*** *eisiau gwneud gyda fy mywyd. Doedd hi ddim yn fy marnu er fy mod wedi gwneud pethau go wael. Roedd hi'n fy nghymryd o ddifrif - pan ddywedais fy mod eisiau rhoi cynnig ar baffio, fe wnaeth hi fy helpu gyda hyn. Pan roeddwn yn edrych am waith, fe helpodd hi fi i ddod o hyd i waith."* (YOT Camden)

*"Cefais fy achub gan fy rheolwr achos. Hebddo, baswn i'n farw. Fe wrandawodd arnaf a rhoi gobaith i mi. Roedd y gwaith wnes i gyda'r YOS yn bennaf yn wastraff amser ond roedd y berthynas oedd gennyf gyda fy rheolwr achos yn gwneud i mi deimlo bod galw amdanaf a fy mod yn gallu newid pe bawn eisiau".* (YOT Dinas Caerlŷr)

*"Roedd hi (y rheolwr achos) yn fy mharchu, yn siarad* ***â*** *mi, nid i* ***lawr*** *ataf. Roeddwn yn gallu ymddiried ynddi a siarad â hi am unrhyw beth. Fe rannais lawer o bethau gyda hi, pethau roeddwn wedi bod yn eu mygu. Doeddwn i byth yn arfer siarad. Roeddwn yn arfer dweud celwydd am bopeth. Fe helpodd hi fi i newid."* (YOT Dwyrain Sussex)

2.3 Mae'r dyfyniadau hyn yn dangos pwysigrwydd perthynas broffesiynol, ymddiriedus nad yw'n barnu lle mae gweithwyr yn gwrando ar blant a phobl ifanc. Roedd eu hamcanion a dyheadau yn cael eu cymryd o ddifrif, yn cael eu gweithredu arnynt ac roedd rheolwyr achos yn meithrin synnwyr o obaith a hunan effeithiolrwydd.

2.4 Siaradodd nifer o blant a phobl ifanc am fod eisiau peidio siomi eu gweithwyr YOT ac mae nifer wedi cadw mewn cyswllt gyda'r gwasanaethau fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd wedi i'w goruchwyliaeth statudol ddod i ben. Roedd hyn yn dystiolaeth o ansawdd ac ystyr y perthnasau a oedd wedi'u sefydlu.

2.5 Yr ail brif thema i ddod i'r amlwg o ddadansoddi cyfweliadau cyn ddefnyddwyr gwasanaeth oedd eu barn o ran sefydlu (neu ail-sefydlu) perthynas deuluol a phersonol pwysig. Roedd rhai wedi dod yn rhieni eu hunain ac wedi adrodd bod hyn wedi newid sut roeddent yn gweld eu hunain a'u blaenoriaethau mewn bywyd. Dywedodd un cyn ddefnyddiwr gwasanaeth nad oedd eisiau i'w fab gael troseddwr yn dad.

2.6 Yn unol â hyn, siaradodd cyn ddefnyddwyr gwasanaeth yn bositif am y cymorth roeddent wedi derbyn gan yr YOT yn ailadeiladu perthnasau toredig gyda phobl bwysig eraill, yn aml rhieni/gofalwyr.

**Dyfyniad gan gyn ddefnyddwyr gwasanaeth**

*"Roeddwn wedi bod yn dadlau llawer gyda fy nheulu oherwydd roeddwn mewn trwbl yn aml. Roedd fy rheolwr achos yn wych. Roedd hi'n feddylgar, yn garedig, yn gefnogol ac yn rhoi cymorth da. Fe wnaeth hi ychydig o waith cyfryngu hefyd. Fe helpodd hyn i ni gysylltu fel teulu."* (YOT Dwyrain Sussex)

2.7 Roedd mwyafrif y sawl y'u cyfwelwyd yn nodi dylanwad cyfoedion fel ffactor arwyddocaol yn eu troseddau blaenorol ac yn pwysleisio'r pwysigrwydd o fod wedi newid y grwpiau cyfeillgarwch hynny, gan eu galluogi i gyflawni a chynnal ffordd o fyw ddi-drosedd. Ychydig yn unig, fodd bynnag, adroddodd fod yr YOT wedi cwblhau unrhyw waith gyda nhw'n benodol ar ddylanwad cyfoedion. Lle roedd gwaith o'r fath wedi cael ei gwblhau, roedd wedi canolbwyntio ar eu helpu fel unigolion i wrthsefyll pwysau gan eraill. Roedd hyn yn bennaf yn cael ei ystyried i fod yn aneffeithiol ac yn amherthnasol.

2.8 Yn y mwyafrif o sefyllfaoedd roedd datblygu grwpiau newydd o ffrindiau wedi digwydd oherwydd newidiadau arwyddocaol eraill yn eu bywydau. Er enghraifft, gwneud ffrindiau

newydd trwy'r ysgol, coleg, a chyflogaeth neu thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladol. Soniodd eraill am newidiadau pwysig yn eu ffordd o fyw a digwyddiadau bywyd yn llacio cysylltiadau gyda chyfoedion negyddol. Roedd perthnasau teuluol gwell yn arwain at dreulio mwy o amser gartref, dod yn rhiant, neu roi'r gorau i gymryd cyffuriau yn nodweddiadol o'r ymatebion hynny.

2.9 Roedd bron hanner o'r sawl a gyfwelwyd yn gallu nodi rhaglenni penodol roeddent yn teimlo oedd wedi'u helpu'n uniongyrchol i newid eu hymddygiad. Yn benodol, roedd y rhain yn cynnwys rhaglenni rheoli dicter, ymyriadau a oedd wedi'u helpu i ymdrin â sefyllfaoedd llawn straen ac ychydig o waith camddefnyddio sylweddau.

2.10 Daeth dwy brif thema i'r amlwg o ymatebion am yr ymyriadau roedd y YOT wedi'u cyflwyno. Yn gyntaf, pwysigrwydd sicrhau bod ymyriadau yn seiliedig ar ymagwedd wirioneddol gydweithredol a oedd yn eu tro yn hyrwyddo ymrwymiad effeithiol trwy ddarparu mewnbwn i blant a phobl ifanc o nodau ac amcanion ar y cyd, ynghyd â pherchnogaeth ohonynt. Yn ail, nodwedd gyffredin o'r ymyriadau hyn oedd eu perthnasedd i'r anghenion a aseswyd ar gyfer yr achos. Mewn rhai amgylchiadau, roedd cyn ddefnyddwyr gwasanaeth yn gallu rhoi datrysiadau ar waith i ddatrys problemau, datrysiadau yr oeddent wedi'u dysgu a'u datblygu trwy'r ymyriadau hyn.

**Esiamplau o arfer nodedig**

Roedd Hayes wedi cwblhau YRO roedd wedi ei dderbyn am drosedd o ddwyn. Roedd tystiolaeth glir o ddeialog ystyrlon gydag ef am beth roedd yn credu oedd y rhesymau pam roedd yn troseddu. Roedd gwybodaeth o'r holiadur hunanasesu wedi cael ei integreiddio'n gywir yn y cynllun. Roedd barn ei fam hefyd wedi cael ei hystyried. Roedd y pryderon rannodd Hayes am effaith ei ymddygiad ar ei ddioddefwyr ac ar ei deulu ei hun wedi cymryd lle canolog yn yr amcanion ycytunwyd arnynt. Roedd y rhain yn gwbl berthnasol ac wedi'u hysbysu gan yr anghenion a aseswyd yn yr achos. (YOT Cwm Taf)

Roedd Millie wedi derbyn YOT am ymosod ar ffrind tra roedd dan ddylanwad alcohol. Pan ofynnwyd iddi beth oedd wedi bod fwyaf defnyddiol i'w chadw allan o drwbl, fe siaradodd am y gwaith i'w helpu i 'gael gwared â straen'. Roedd hi'n gallu disgrifio'r technegau roedd wedi'u dysgu ac roedd yn dal i'w defnyddio i'w helpu i gadw'n ddigyffro - tynnu ei hun allan o sefyllfaoedd gwrthdrawiadol, cymryd amser allan a dychmygu delweddau positif neu heddychlon. (YOT Dinas Caerlŷr)

2.11 Fe nodwyd hefyd y gefnogaeth ymarferol a ddarperir gan yr YOT gan y plant a phobl ifanc fel ffactor pwysig wrth symud i ffwrdd o droseddu. Roedd hyn yn cymryd gwahanol ffurfiau ond fe nododd plant a phobl ifanc y cymorth i sicrhau cyflogaeth, mynediad i mewn i weithgareddau hamdden positif neu ddarparu cyfleoedd i ymrwymo mewn gwaith gwirfoddol fel esiamplau o gefnogaeth a oedd wedi'u helpu i newid eu bywydau er gwell.

**Dyfyniadau gan gyn ddefnyddwyr gwasanaeth**

*"Rydw i'n hoffi cadw'n brysur. Cefais gefnogaeth gan yr YOT i ddefnyddio'r cyfrifiadur i edrych am swyddi a chofrestru gydag asiantaethau. Cefais gefnogaeth gyda thechnegau cyfweliad a pharatoi beth i'w ddweud. Roedd yn ymarferol iawn."* (YOT Gwlad yr Haf)

*"Mae fy mhrofiad o fod gyda'r YOT wedi rhoi'r awydd a'r uchelgais i mi adeiladu gyrfa mewn gwaith ieuenctid. Fe dderbyniais gefnogaeth gan staff addysg y YOT ar sut i wneud hyn. Cefais help ganddynt i wneud ychydig waith gwirfoddol gyda chlwb ieuenctid lleol. Roedd hwn yn help i gael lle mewn coleg a hyfforddi."* (YOT Cwm Taf)

*"Roeddwn wastad mewn trwbl oherwydd fy mod yn diflasu. Siaradodd fy ngweithiwr gyda mi am ymuno â chlwb ieuenctid. Roedd hwn yn agos at le roeddwn yn byw ond doeddwn ddim yn gwybod amdano. Ar ôl mynd am y tro cyntaf, roeddwn yn mynd o hyd ac roedd hyn yn fy helpu i gadw allan o drwbl. Rydw i wedi cwrdd â phobl wahanol, gwneud ffrindiau newydd ac mae llawer i'w wneud."* (YOT Dwyrain Sussex)

2.12 Roedd ymagweddau cyfiawnder adferol, gwneud iawn a gwaith gyda throseddwyr yn gweithredu fel sbardun defnyddiol am newid ac, mewn nifer fechan o achosion, fel rhwystr. Soniodd y bobl ifanc hynny a oedd o'r farn bod gwneud iawn yn ddefnyddiol am y buddion canlynol:

- cael eu cyflwyno i fyd gwaith oedolion
- cael eu derbyn a'u trin heb feirniadaeth gan y sawl a oedd yn darparu neu oruchwylio'r lleoliadau hynny
- darparu profiadau a 'blas' o'r pethau roeddent eisiau eu canlyn yn y dyfodol
- darparu synnwyr o 'roi yn ôl' neu gyfrannu at eu cymunedau
- cynnydd mwy cyffredinol mewn hunan-barch a hunanwerth.

**Esiamplau o arfer nodedig**

Yn dilyn trafodaethau helaeth gyda Jackie, penderfynodd yr YOT newid y lleoliad gwneud iawn o beintio garej i leoliad mewn siop elusen. Dyma oedd y penderfyniad cywir oherwydd fe gafodd ei chyflwyno i fyd gwaith oedolion a bu i hyn arwain at gyflawni nifer o ganlyniadau positif. Roedd Jackie yn cael ei hystyried yn weithwraig galed gan ei goruchwyliwr a oedd yn fodlon darparu geirda cymeriad. Roedd Jackie yn siarad yn hoffus am ei chyfnod yn y siop ac yn dweud cymaint roedd hi wedi gwerthfawrogi cael ei pharchu ac roedd hyn yn cadarnhau ei hymdrechion. Roedd hi'n teimlo ei bod yn cael ei thrin fel oedolyn a bod dim un aelod staff yn siarad â hi mewn modd beirniadol. Roedd yr YOT yn gallu adeiladu ar y cyraeddiadau o'r lleoliad hwn. (YOT Darlington)

Roedd ry YOT wedi bod yn gweithio gyda Ollie a oedd yn brin o gymhelliant. Roedd ei allu i gadw apwyntiadau yn dechrau dirywio ac nid oedd yn dangos llawer o ysgogiad i ymrwymo gydag unrhyw waith. Dechreuodd y rheolwr achos oedi'r gwaith a oedd wedi cael ei gynllunio a threulio amser gydag Ollie er mwyn deall yn well beth oedd yn digwydd yn ei fywyd. Dros nifer o sesiynau, soniodd Ollie am nifer o faterion cymhleth a oedd yn atal ei gymhelliant. Roedd y rhain yn amrywio o berthnasau teuluol gwael, hunan-niwed a theimladau o gael ei lethu gan ddedfryd y llys. Gweithiodd y rheolwr achos yn sensitif gydag Ollie ar ei gyflymder ei hun. Trwy gydol y broses roedd rhaglen waith yn cynnwys gwneud iawn, empathi â dioddefwyr a phennwyd perthnasau iachus. Roedd y tasgau a gytunwyd yn cael eu harwain gan Ollie. Fe nododd yn ddiweddarach fod ei hunanwerth wedi cynyddu a'i fod yn gallu gweld y cyswllt uniongyrchol rhwng ei droseddu a'r gwaith gwneud iawn roedd gofyn iddo ei wneud. (YOT Dwyrain Sussex)

## Rhwystrau at ymatal

2.13 Fel y nodwyd eisoes, roedd nifer o gyn ddefnyddwyr gwasanaeth wedi cadw mewn cysylltiad gyda staff yr YOT am gyfnod wedi i'w goruchwyliaeth statudol ddod i ben. Roeddent, fodd bynnag, hefyd yn barod ac yn gallu darparu mewnwelediad mwy beirniadol ar agweddau o'u goruchwyliaeth.

2.14 Roedd gan nifer o blant a phobl ifanc y canfyddiad nad oedd rhai aelodau o staff yr YOT yn gwbl ymrwymedig, eu bod yn rhy awdurdodol a ddim yn gwrando ar eu hanghenion. Sonion nhw fod hyn wedi amharu ar y dasg o sefydlu neu adeiladu ymddiriedaeth. Cwynodd nifer fechan am y jargon mewn cynlluniau ac ymyriadau ynghyd â diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth am gyd-destun cynlluniau.

2.15 Roedd rhai o'r plant a phobl ifanc yn teimlo bod sesiynau ymddygiad tramgwyddus ffurfiol wedi bod yn rhwystrau, gan eu disgrifio fel anniddorol, diflas a blinderus. Roedd yn glir bod nifer yn syml wedi drifftio trwy sesiynau, gan gydymffurfio ond heb gymryd rhan yn weithgar. Nododd nifer o'r plant a phobl ifanc bod ymyriadau'r YOT wedi cael braidd ddim effaith uniongyrchol, os o gwbl, o raneu cefnogi i symud i ffwrdd o droseddu.

**Dyfyniadau gan gyn ddefnyddwyr gwasanaeth**

*"...eistedd o amgylch mewn grŵp yn gwylio fideo ar droseddau cyllell. Roedd yn gwbl, ti'ngwybod - yn wastraff amser 'chan."*

*"Fe es i ran fwyaf o'r cyrsiau ond roedden nhw'n ofnadwy. Roedden nhw'n pregethu wrthon ni am beth fyddai'n digwydd pe byddem yn parhau i droseddu. Pe na fyddwn yn gyrru ymlaen gyda fy ngweithiwr, fyddwn i heb fynd. Pan rwyt ti mewn grŵp, rwyt ti'n tynnu sylw dy ffrindiau. Jyst gêm yw e."*

*"Roedd y gweithdy dioddefwyr yn rwtsh. Gwastraff amser. Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gallu deall hanner y geiriau roedden nhw'n eu defnyddio. Mae'r YOT jyst yn gwneud i ti fynd ar y cyrsiau hyn i ddangos dy fod wedi gwneud gwaith dioddefwyr. Maen nhw'n dweud da iawn, rwyt ti'n nodio dy ben, gwenu a symud ymlaen. Roeddwn i jyst yn chwarae gyda nhw."*

2.16 Mewn achosion eraill, nid oedd gwaith pwysig gyda rhwydweithiau teuluol wedi cael ei gwblhau. Mewn un sefyllfa, fe fynegodd person ifanc a oedd yn byw'n annibynnol awydd cryf i ailadeiladu perthynas gyda'i fam yr oedd wedi ymddieithrio oddi wrthi. Roedd hon yn amlwg yn flaenoriaeth bwysig iddo, un gyda'r potensial nid yn unig i adeiladu hunanhyder, ond gallai hefyd fod wedi arwain at gefnogaeth gynaliadwy hir dymor yn mynd y tu hwnt i dymor goruchwyliaeth yr YOT.

2.17 Roedd nifer o'r cyn ddefnyddwyr gwasanaeth wedi bod yn Blant sy'n Derbyn Gofal. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn sôn yn negyddol am eu profiadau. Nodwyd mai'r ffactor mwyaf aflonyddus oedd cael nifer o leoliadau, y diffyg sefydlogrwydd a oedd yn dilyn a newidiadau cyson o ran gweithiwr cymdeithasol a oedd yn rhwystro'r gallu i ddatblygu perthnasau cyson.

2.18 Disgrifiwyd nifer o rwystrau eraill gan gyn ddefnyddwyr gwasanaeth. Soniodd un am ei thrafferthion i gydymffurfio gyda'r hyn ddisgrifiodd hi fel amserlen Rhaglen Goruchwyliaeth Ddwys a oedd yn gofyn gormod. Yn y diwedd, fe arweiniodd hyn ati yn peidio â chydymffurfio ac yn dychwelyd i'r llys. Cwynodd y person ifanc ei bod wedi siarad â'i rheolwr achos am yr anawsterau roedd hi'n eu cael ond bod dim byd wedi newid.

2.19 Nododd un arall ei bod wedi dioddef llawer o anghysondeb pan roedd o dan oruchwyliaeth YOT yn gyntaf o ran dibynadwyedd. Dywedodd fod ei reolwr achos cyntaf yn aml ddim yno pan roedd yn mynychu apwyntiadau ac ar un adeg roedd nifer o newidiadau ym mhwy oedd yn ei oruchwylio mewn cyfnod byr o amser. Arweiniodd hyn at broblemau gyda chydymffurfio ac ymrwymo ac yn y pen draw at drafodion cyfreithiol oherwydd ei fod wedi torri amodau. Dim ond pan gymerodd ei reolwr achos diwethaf yr achos ymlaen y dechreuodd pethau wella.

2.20 Siaradodd eraill am sut roedd eu profiadau o'r system cyfiawnder troseddol wedi'u gadael yn teimlo fel eu bod wedi cael eu labelu'n droseddwyr. Roedd un yn cofio cael ei ddisgrifio yn y llys fel *"...alcoholig ifanc"* tra bod un arall wedi teimlo embaras a chywilydd ar ôl cael ei adnabod yn gyhoeddus fel troseddwr tra'n ymgymryd â gwaith di-dâl.

2.21 Y thema gyffredin sy'n rhedeg trwy'r holl rwystrau a nodir uchod (diffyg gweithio go iawn ar y cyd, y defnydd o iaith estron, plant a phobl ifanc yn dioddef ymyriadau sydd o braidd ddim budd iddynt, os o gwbl, hepgor ymyriadau pwysig, peidio ag adolygu gallu am raglen ddwys, neu anghysondeb yn yr ymagwedd) yw eu bod yn adlewyrchu diffyg ymagwedd gwbl bersonol gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r unigolyn.

**Dyfyniadau gan gyn ddefnyddwyr gwasanaeth**

*"Roeddwn i wir eisiau gweld fy mam eto. Dwi'n gwybod bod hi wedi bod yn fam wael ond mae hi’n dal yn fam i mi. Dywedodd yr YOT y byddai'n anodd i mi ei gweld hi. Roeddwn i'n methu deall pam. Rwy'n ei cholli hi."*

*"Mae wir yn anodd adeiladu ymddiriedaeth gyda'ch gweithiwr cymdeithasol pan maen nhw'n newid o hyd. Sut basech chi'n teimlo os byddai rhaid i chi ddweud eich stori dro ar ôl tro? Dydy hi ddim yn deg."*

*Roedd y rhaglen yn rhy gyffredinol. Doedd hi ddim wir yn berthnasol i mi. Oeddwn, roeddwn i angen help gyda fy nghyffuriau ond gallai'r cwrs fod wedi bod ar gyfer unrhyw un. Roedd mwy fel dosbarth ble rydych chi'n dysgu pethau. Doedd e ddim yn bersonol i mi."*

### Crynodeb

2.22 Roedd ymatebion cyn ddefnyddwyr gwasanaeth yn gyson gyda nifer o brif ganfyddiadau'r ymchwil academaidd ar ymatal, gan gynnwys pwysigrwydd canolog perthnasau proffesiynol a phersonol, yr angen i ymrwymo gyda rhwydweithiau ehangach a hyrwyddo amrywiaeth trwy sicrhau cynllun gwaith personol ac unigol gyda phob plentyn neu berson ifanc. Yr un mor bwysig oedd mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, creu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau cadarnhaol ac ailintegreiddio yn y gymuned, cadw plant a phobl ifanc wedi'i hysgogi a'r defnydd o ymagweddau gwneud iawn ac adfer.

2.23 Yn amlwg, roedd profiadau'r plant a phobl ifanc hyn o'u YOT a'r system cyfiawnder ieuenctid yn amrywio'n fawr. Roedd nifer wedi ymrwymo mewn mathau tebyg o ymyriadau, ond wedi cael profiadau tra gwahanol ohonynt. Mae'n amlwg felly ei bod yn ymwneud â mwy na pha waith sy'n cael ei gynnal, ond hefyd sut mae gweithwyr yn gwrando ar, trin, ymrwymo a chynnwys plant a phobl ifanc. Ar ben hynny, ymyriadau sydd wedi'u personoli'n dda yw’r rhai sy’n debygol o fod y rhai mwyaf effeithiol.

# 3. Profiad defnyddwyr gwasanaeth cyfredol - y sawl sy'n parhau

**Cyflwyniad**

Mae'r adran hon yn disgrifio'r canfyddiadau o archwiliadau manwl o 37 achos a dynnwyd o lwyth achosion cyfredol yr YOTs a gymerodd ran. Y prif feini prawf ar gyfer y detholiad oedd y dylai fod pob plentyn neu berson ifanc wedi cael o leiaf ddau warediad blaenorol a heb ymatal rhag troseddu yn derfynol eto. Cynhaliodd arolygyddion gyfweliadau gyda'r plant a phobl ifanc hyn, rhai o'u rhieni/gofalwyr, a rheolwyr achos. Roedd hefyd ganddynt fynediad at gofnodion achos a dogfennaeth arall. Daethpwyd â'r ffynonellau tystiolaeth hyn at ei gilydd mewn crynodebau myfyriol o'r achosion. Fe luniodd y dadansoddiad o'r crynodebau hyn sail y feirniadaeth ar arfer ar draws yr wyth maes ymatal.

**Crynodeb**

- Bu i arolygyddion ddarganfod bod gwaith i adeiladu a chynnal perthnasau gwaith cadarnhaol rhwng ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei wneud yn dda.
- Roedd tystiolaeth hefyd fod y mwyafrif o'r plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i fynd i'r afael â rhai rhwystrau a heriau strwythurol allweddol.
- Cyfyngedig oedd y cynllunio ar gyfer ymrwymiad ac ail-ymrwymiad.
- Nid oedd barn defnyddwyr gwasanaeth a gwybodaeth o holiaduron dulliau dysgu roeddent wedi'u cwblhau yn cael eu hintegreiddio'n iawn mewn cynlluniau.
- Roedd diffyg gwaith i adeiladu cefnogaeth deuluol yn y mwyafrif helaeth o achosion.
- Roedd gwaith ar hunaniaeth yn gyson ar goll.
- Yn gyffredinol, fe welsom ddarlun cymysg yn y perfformiad ar draws yr wyth maes ymatal gan ddynodi cyfle amlwg am welliant ar draws pob un o'r meysydd arfer a archwiliwyd.

3.1 Dylid nodi nad yw'rr wyth maes o anghenraid yn annibynnol o'i gilydd. Gallai llwyddiant yn mynd i'r afael â rhwystr strwythurol allweddol, er enghraifft, trwy sicrhau cyflogaeth, arwain at welliannau mewn hunanwerth, hunaniaeth bositif ac integreiddiad gyda'r gymuned. Wrth ddod i gasgliadau o dan bob pennawd, rydym wedi tynnu ar a gwerthuso dogfennau a thystiolaeth cofnodion achos, barn defnyddwyr gwasanaeth a (mewn rhai achosion) rhieni/gofalwyr, rheolwyr achos a gweithwyr proffesiynol eraill.

### Adeiladu perthynas ac ymrwymo

3.2 Mae ymchwil ar ymatal ac ymatebion y sawl sy'n ymatal yn tynnu sylw at bwysigrwydd perthynas weithiol ymddiriedus fel sylfaen arfer, ymrwymo, ail-ymrwymo a gweithio ar y cyd. O ystyried ei bwysigrwydd fel rhan o ymchwil ymatal, fe edrychom am dystiolaeth yn y maes hwn.

3.3 Fe ddarganfuom lawer o waith da a chreadigrwydd gan weithiwyr yr YOT wrth adeiladu perthynas gadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc. Yn y mwyafrif helaeth o achosion, roedd gweithwyr yn ceisio'n galed i adeiladu ymddiriedaeth ac ymrwymo plant a phobl ifanc trwy weithgareddau, mynd i'r afael ag anghenion amrywiaeth, dangos hyblygrwydd gyda threfniadau goruchwylio, neu ganiatáu i weithwyr proffesiynol eraill arwain pan roedd perthynas weithiol gadarnhaol eisoes wedi cael ei sefydlu. Roedd hefyd yn glir mewn nifer o sefyllfaoedd bod gweithwyr yn dangos gwir ymrwymiad, 'gan fynd gam ychwanegol' i gefnogi'r sawl yr oeddent yn eu goruchwylio.

**Dyfyniadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol**

*"Mae'r rheolwr achos yn fy annog, yn fy nghefnogi a byddai'n gwneud unrhyw beth drosof. Rwy'n gwybod y gallaf alw arni a bydd hi yno ar fy nghyfer - rwyf yn ymddiried ynddi yn llwyr. Mae hi wedi fy helpu i ddod o hyd i gwrs, wedi trefnu gweithiwr i fy helpu gyda fy mhroblem cyffuriau ac wedi gwneud i mi feddwl am fy nhroseddau."* (YOT Cwm Taf)

*"Mae fy ngweithiwr yn rhywun rydw i'n ymddiried ynddi yn llwyr. Gallaf ddweud unrhyw beth wrthi ac rwy'n gwybod y bydd hi'n gwrando, mae hi wedi gwneud cymaint drosof."* (YOT Darlington)

*"Rydym yn siarad am bopeth. Gallaf siarad â fy rheolwr achos am unrhyw beth. Ond y peth gorau amdani yw ei bod hi'n gwneud i mi deimlo'n gyfforddus. Doedd dim rhaid i mi fod yno. Rydw i wir yn mwynhau dysgu gyda hi."*

**Esiamplau o arfer nodedig: adeiladu perthynas gadarnhaol**

Roedd gan y rheolwr achos werthfawrogiad realistig o'i pherthynas broffesiynol gyda'r person ifanc ac roedd yn cydnabod bod lefel o ddrwgdybiaeth yn parhau. Yn bwysig, er ei bod wedi adnabod y person ifanc am sbel, roedd hi'n gweld adeiladu perthynas fel rhywbeth roedd rhaid iddynt weithio arno'n gyson. (YOT Dinas Caerlŷr)

Roedd y rheolwr achos yn cydnabod nad oedd Anita wir eisiau dod i'r YOT. Roedd y ddwy yn ymwybodol, fodd bynnag, bod gan Anita berthynas dda gyda nyrs y YOT. O ganlyniad, fe drïodd y rheolwr achos hwyluso cymaint o'r gwaith â phosib drwyddi. Roedd hyn yn cynnwys gwaith i fynd i'r afael ag iechyd rhywiol a oedd yn bryder amlwg o ran bod yn agored i niwed. Y canlyniad oedd bod Anita yn gallu bod yn fwy agored gyda'r rheolwr achos. (YOT Darlington)

3.4 Fe welodd arolygyddion esiamplau o arfer a oedd yn amlwg yn tanseilio'r datblygiad o berthynas bwrpasol ac unrhyw siawns o waith effeithiol. Yn anffodus, (er mewn nifer fechan iawn o achosion) roedd labeli difrïol a negyddol wedi cael eu rhoi i blant a phobl ifanc, a oedd yn cael eu disgrifio fel bod yn *"annymunol", "unigolyn rhyfedd"* neu hyd yn oed *"gwyllt".* Nid oedd yn syndod darganfod bod ymrwymiad a chydymffurfiad yn wael yn yr achosion hynny.

3.5 Mewn rhai achosion fe ddarganfuom dueddiad i ddelio gyda rhai 16 a 17 mlwydd oed yn fwy fel oedolion na phlant. Roedd y pwyslais yn yr achosion hyn ar ddarparu negeseuon cyson am gydymffurfio, gofynion goruchwyliaeth y plentyn neu berson ifanc, a'u cyfrifoldeb i gadw apwyntiadau. Fe ddisgrifiodd un arolygydd y berthynas mewn achosion o'r fath fel *"gweithredol".*

3.6 Roedd yn nodedig, hyd yn oed mewn achosion ble gwelsom fod perthnasau gweithiol cadarnhaol wedi cael eu sefydlu, nad oedd unrhyw asesiad a chynllunio **ar gyfer** ymrwymiad yn digwydd. Gallai fod bod yr agwedd yma o'r gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn aml yn cael ei hystyried i fod yn rhy amlwg neu sylfaenol i'w gynnwys mewn asesiadau neu gynllunio ffurfiol. Roedd y methiant i gasglu a dadansoddi gwybodaeth flaenorol o beth oedd wedi bod/heb fod yn llwyddiannus wrth ymrwymo'r plentyn neu berson ifanc, neu i ddeall beth oedd y rhwystrau i ymrwymo, yn ddiffygion pwysig. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer yr achosion hynny lle roedd pryderon wedi bod eisoes am gydymffurfio neu orfodaeth.

3.7 Roedd nifer o esiamplau o weithio cadarnhaol ar y cyd. Yn benodol, roedd defnydd helaeth o hunanasesiadau, gan gynnwys yr holiaduron 'Beth Wyt Ti'n Meddwl' (WDYT) a rhai am

ddulliau dysgu. Datgelodd yr arolygiad fod rhyw fath o hunanasesu wedi digwydd mewn tua phedwar o bob pum achos a archwiliwyd. Yn yr esiamplau gorau, fe welsom bod y dogfennau hyn wedi cael eu cyfeirio'n glir, wedi cael eu dilyn a bod tystiolaeth ohonynt mewn asesiadau, cynlluniau ymyrraeth a'r cyflwyniad o waith gyda phlant a phobl ifanc.

**Esiamplau o arfer nodedig: gweithio ar y cyd**

Roedd cynllun ymyrraeth manwl iawn, yn seiliedig ar asesu dull dysgu Jasmine fel 'gweledol'. Roedd y cynllun yn cynnwys nifer o bictogramau a oedd yn berthnasol i'r targedau y cytunwyd arnynt. Roedd Jasmine yn glir am beth oedd prif elfennau ei chynllun, yn benodol, rheoli dicter, cynghori, gweithgareddau adeiladol ac addysg. (YOS Camden)

Roedd tasg sgrinio wedi cael ei chwblhau i helpu Bhavik adnabod pa faterion oedd bwysicaf iddo. Cawsant eu hymgorffori yn y cynllun ymyrraeth cychwynnol. Roedd gan Bhavik ddealltwriaeth glir o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud ac roedd yn gallu esbonio gwahanol rolau'r gweithwyr a oedd yn ei gefnogi. Roedd hyn yn sylweddol o ystyried bod pedwar gweithiwr yn gweithio gydag ef i fynd i'r afael ag amrediad o wahanol broblemau. (YOT Cwm Taf)

3.8 Pan edrychom am dystiolaeth i weld i ba raddau roedd barn defnyddwyr gwasanaeth (WDYT) a oedd yn gynwysedig yn yr asesiadau hyn wedi cael eu defnyddio i hysbysu Asedau craidd, cynlluniau ac ymyriadau, fe welsom fod hyn wedi digwydd mewn tua chwarter o'r 37 achos. Darlun tebyg oedd hi gyda'r wybodaeth o'r holiaduron dulliau dysgu. Yma, fe ddarganfuom mai saith achos yn unig oedd yn cyfeirio at sut byddai'r wybodaeth yma yn llunio sut byddai ymyriadau yn cael eu cyflwyno. Ar ben hyn, naw plentyn a pherson ifanc yn unig oedd wedi llofnodi'u cynlluniau ymyrraeth.

3.9 Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu'n gryf bod cyfleoedd i ymrwymo'n weithredol gyda phlant a phobl ifanc, gweithio gyda hwy mewn modd gwirioneddol gydweithredol ac ymgorffori materion a oedd yn eu pryderu yn cael eu colli. Gall hefyd esbonio i ryw raddau, yn ein cyfarfodydd, pam fod mwyafrif y plant a phobl ifanc yn methu cofio'r camau a oedd yn gymwysedig yn eu cynlluniau ymyrraeth.

**Dyfyniadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol**

*"Dydw i ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu'n dda iawn. Doeddwn i ddim yndeall y llythyron dderbyniais i. Roeddwn yn colli apwyntiadau yn aml ond nid fi oedd ar fai mewn gwirionedd. Fe ddywedais wrthynt fy mod yn methu cofio pethau'n dda iawn."*

*"Dydw i ddim yn cofio llofnodi unrhyw beth. Rwy'n cofio nhw'n dweud bod rhaid i mi fynd i weld rhywun am fy mariwana. Roedd fel bo nhw'n dweud wrthyf beth roedd rhaid i mi wneud a phwy oedd rhaid i mi weld. Fe ddywedais fy mod ddim yn un da am siarad ond fe ddywedon nhw fod rhaid i mi fynd. Doedd hynny ddim yn helpu ac yn y diwedd roeddwn yn y llys am dorri amodau oherwydd roeddwn i'n methu canolbwyntio am yr holl sesiwn."*

*"Pan ddechreuais gyda'r YOT fe ddywedon nhw wrthyf beth fyddwn i'n wneud. Doedd gen i ddim dewis a doeddwn i ddim yn deall beth roedd gofyn i mi wneud. Roeddwn yn gwybod fy mod wedi troseddu ac mai cosb oedd hon, ond byddai wedi bod yn barchus pe byddent wedi gofyn i mi am fy marn."*

*"Rwy'n credu eu bod wedi rhoi pethau mewn cynllun - fe welais rywbeth wedi'i deipio ar y cyfrifiadur ac roedd rhaid i mi ei lofnodi. Dwi ddim yn gwybod beth oedd e!"*

3.10 Fe dynnwyd sylw at anghymhelliad posib arall mewn cyfweliadau gyda rheolwyr achos. Roedd nifer o ymatebion yn rhoi arwyddion clir bod ymarferwyr weithiau'n teimlo pwysau i gyflawni targedau perfformiad allweddol a'r angen i gyflwyno ymyriadau yn erbyn

ymddygiad tramgwyddus ar draul macsimeiddio ymrwymiad da. Roedd cydnabyddiaeth bod ymrwymiad yn aml yn arwynebol ond mai’r nod terfynol oedd cwblhau’r rhaglen yn hytrach na'i effaith ar gefnogi ymataliad.

3.11 Fe ddarganfuom fod anawsterau wedi bod mewn cydymffurfiaeth mewn bron tri chwarter yr achosion gyda defnyddwyr gwasanaeth cyfredol. Yn gyffredinol, nid oedd llawer o dystiolaeth mewn cofnodion achos a dogfennaeth arall o ddadansoddiad a chynlluniau i fynd i'r afael â pheidio â chydymffurfio. Roedd yr YOTs yn gwneud defnydd o baneli cydymffurfiaeth neu fforymau tebyg i ystyried ac adolygu achosion o'r fath ond ymddengys bod y pwyslais ar yr hyn y gellir ei disgrifio fel gwneud penderfyniadau amddiffynadwy - a ddylid parhau gyda mesurau gorfodaeth neu eu cario drosodd. Roedd llai o dystiolaeth o gamau gweithredu pendant. Nid oedd hyn yn ddigon da.

### Gweithio gyda rhwydweithiau defnyddwyr gwasanaeth

3.12 Mae llenyddiaeth ar ymatal yn nodi'n gryf arwyddocâd cysylltiadau cymdeithasol a rhwydweithiau ehangach plant a phobl ifanc. Fe archwiliom sut roedd YOTs yn cefnogi eu datblygiad. Edrychom yn benodol ar berthnasau gydag aelodau o'r teulu a chyfoedion, ac ar rwydweithiau arwyddocaol gan gynnwys yr ysgol, coleg a lleoliadau gwaith.

3.13 Fe ddarganfuom dystiolaeth o waith da gyda rhwydweithiau teuluol y plentyn neu berson ifanc mewn tri o bob pum achos cyfredol. Roedd y dadansoddiad o'r crynodebau achos yn awgrymu y dylid gwahaniaethu rhwng dau fath o waith teuluol:

- gwaith a wneir gyda rhieni/gofalwyr i ddatblygu neu wella arddulliau/sgiliau bod yn rhiant
- ffurfiau mwy cyffredinol o gefnogaeth, megis rhoi cyngor, hygyrchedd rheolwyr achos mewn achosion brys, ymdrin â chwestiynau ac ymholiadau, sicrhau darpariaeth neu gymorth arall, a rhoi gwybod iddynt beth sy'n digwydd.

3.14 Mewn ymateb i waith uniongyrchol i wella sgiliau bod yn rhiant, roedd mwyafrif yr ymyriadau yn cael eu cyflwyno trwy gynlluniau penodol megis Prosiectau Ymyrraeth Teuluol, Therapi Aml-Systemig neu wasanaethau Therapi Teuluoedd Gweithredol.

**Esiamplau o arfer nodedig: gweithio gyda rhieni/gofalwyr**

Roedd y rheolwr achos yn ystyried bod mam Farooq yn hanfodol wrth gefnogi newid mewn ymddygiad. Roedd tystiolaeth o waith ar y cyd gyda gofal plant o ran gwella perthynas Farooq gyda'i fam a'i frodyr a chwiorydd eraill. Roedd gwelliant yn ei berthynas yn amlwg mewn adroddiadau ar wahân a ddarparwyd gan Farooq a'i fam. (YOS Camden)

Roedd gwaith parhaus da i atgyweirio perthynas Becky gyda'i mam a oedd yn amlwg yn bwysig i'r ddwy, ond a oedd hefyd yn gallu bod yn anodd iawn. Roedd ailadeiladu'r berthynas at sefyllfa lle mae Becky bellach yn byw'n annibynnol yn golygu bod rhai o'r agweddau a allai fod yn negyddol bellach yn llai cyson, hir a niweidiol. (YOT Dinas Caerlŷr)

3.15 O ran cefnogaeth fwy cyffredinol, roedd rhieni/gofalwyr yn gyffredinol yn bositif er nododd rhai eu bod eisiau chwarae mwy o ran a'u bod yn teimlo y gallent fod wedi cyfrannu mwy at y gwaith a wnaethpwyd gyda'u plant. Roedd y math yma o waith wedi cael ei wneud yn dda mewn ychydig dros hanner yr achosion cyfredol. Ar ben hynny, roeddem yn credu bod cyfle ar gyfer rhyw fath o gefnogaeth deuluol bwrpasol ffurfiol neu anffurfiol mewn bron bob un o'r cyrsiau a arolygwyd.

**Dyfyniadau gan rieni / gofalwyr**

*"Roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi gan yr YOT a'r rheolwr achos yn benodol. Dwi'n gwybod fy mod yn gallu ei ffonio ar unrhyw adeg a bydd yn fy ateb. Rydw i'n siarad gyda'r rheolwr achos yn rheolaidd ac mae'n rhoi gwybod i mi am bopeth sy'n digwydd."* (YOT Darlington)

*"Ni chysylltodd y rheolwr achos â mi o gwbl bron Dros 12 mis, cefais wahoddiad i un cyfarfod ac roedd hynny i baratoi'r adroddiad cyn-dedfrydu. Nid oeddwn yn teimlo ynghlwm â'r YOT o gwbl."*

*"Ni fyddwn wedi goroesi heb gymorth yr YOT. Mae'r staff i gyd wedi bod yn anhygoel. Maen nhw wedi rhoi gwybod i mi am bopeth sy'n digwydd gyda fy mab. Rydw i mor ddiolchgar. Rydw i'n gwybod eu bod ar ben arall y ffôn - dydyn nhw byth yn fy siomi."* (YOT Cwm Taf)

*"Dydw i ddim yn cael gwybod beth sy'n digwydd. Hoffwn fod yn fwy ynghlwm gyda beth mae fy mab yn ei wneud yn yr YOT. Fy mab i yw e ac rydw i'n ei adnabod. Dydyn nhw braidd byth yn gofyn i mi am fy marn. Dim ond 12 yw e. Dim ond babi yw e, er mwyn dyn. Baswn i'n gallu dweud llawer wrthynt. Doedden nhw ddim yn rhoi gwybod i mi beth oedd yn digwydd - jyst yn ysgrifennu ataf pan roedd pethau yn mynd o'i le. Nid oedd gan yr YOT air da i ddweud am fy mab. Doedden nhw ddim yn ei ganmol pan roedd e'n dda a dydyn nhw heb roi ffiniau clir iddo."*

3.16 Fe welsom ychydig dystiolaeth o waith effeithiol gyda rhwydweithiau ehangach. Roedd hyn yn bennaf mewn ysgolion, colegau a lleoliadau preswyl pobl ifanc. Ar y cyfan eithriadau oedd yr esiamplau hyn yn hytrach na'r arfer. Lle roeddent yn digwydd, roeddent yn cael effaith sylweddol trwy rwystro gweithrediadau a allai fod yn niweidiol (megis bygwth gwaharddiad), dangos model o blaid agweddau cymdeithasol neu'n syml hyrwyddo gweithio ar y cyd.

**Esiamplau o arfer nodedig: ymrwymo gyda rhwydweithiau ehangach**

Roedd hwn yn achos cymhleth ble roedd problemau hanesyddol wedi bod o ran mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Roedd y rheolwr achos yn cysylltu'n agos gyda'r ysgol er mwyn esmwytho trosglwyddiad Gordon i leoliad newydd. Roedd yr adran addysg wedi bod yn ystyried erlyn mam Gordon oherwydd ei bresenoldeb gwael yn yr ysgol ond trwy hyrwyddo'r cyswllt gyda gweithiwr addysg yr YOT, fe lwyddodd y rheolwr achos stopio hyn rhag digwydd. Roedd hyn yn rhyddhad mawr i fam Gordon oherwydd roedd hi wedi bod yn trafferthu gyda’i ddiffyg cymhelliant i fynychu'r ysgol. Roedd hi'n teimlo bod yr YOT wedi ymateb i fater a oedd yn berthnasol iddi hi a'i mab. (YOT Dinas Caerlŷr)

Roedd Josiah wedi datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r ddau ofalwr yn ei lety â chymorth. Roedd hyn wedi ei alluogi i ddatblygu ei sgiliau byw yn annibynnol. Roedd y cyfweliad gydag un o'r gofalwyr yn darparu safbwynt positif iawn o'r cynnydd roedd hi wedi’i weld. Roedd hi (ar y cychwyn) yn weddol bryderus oherwydd ni fyddai'n dechrau sgwrs, roedd yn ymddangos mewn hwyliau isel a byddai'n aros yn ei ystafell wely. Nawr, roedd yn bwyta gyda nhw, yn coginio ac yn gwneud gwaith tŷ. Roedd ei hwyliau wedi gwella ac roedd staff yn y lleoliad yn aml yn gallu rhannu jôc gydag ef. Roedd rhai digwyddiadau anodd i ymdrin â hwy wedi bod ac roedd Josiah wedi ymddiheuro amdanynt. Roedd y gofalwyr wedi darparu sefydlogrwydd ac wedi dangos sut roedd perthnasau'n gallu gweithio, rhywbeth nad oedd Josiah wedi cael profiad ohono yn flaenorol. (YOT Gwlad yr Haf)

3.17 Nodwyd dylanwad negyddol cyfoedion fel ffactor pwysig sy'n gysylltiedig â throseddu plentyn neu berson ifanc mewn dros draean o'r 37 achos o ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol. Roedd cyn ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystyried hwn fel ffactor arwyddocaol yn eu troseddu a'u llwybrau allan o droseddu.

3.18 Roedd nifer o ymarferwyr yn cael anhawster yn mynd i'r afael â pherthnasau negyddol gyda chyfoedion. Mae'n gyffredin i'r sawl yn eu harddegau ddatblygu cyfeillgarwch/cysylltiadau cryf ac roedd y syniad o ailgyfeirio plant a phobl ifanc i ffwrdd o'u grwpiau cyfoedion rhywsut yn heriol. O ganlyniad efallai, nid oedd gwaith gyda chyfoedion yn cael ei flaenoriaethu ar bob adeg ac nid oedd yn rhan amlwg o'r achosion a arolygwyd.

3.19 Yn gyffredinol roedd yr ymagwedd a gymerwyd yn canolbwyntio ar sut allai'r plentyn neu berson ifanc ddatblygu strategaethau eu hunain i wrthsefyll dylanwad negyddol pobl eraill. Ymhlith yr esiamplau oedd gwaith i geisio datblygu pendantrwydd, meddwl ôl-ddilynol ac annog plant a phobl ifanc i gerdded i ffwrdd o sefyllfaoedd.

3.20 Doedd braidd ddim tystiolaeth o ddadansoddi dylanwad cyfoedion mewn cyd-destun ehangach. Er enghraifft, ystyried grwpiau cyfeillgarwch yn fanwl neu beth y gellir ei wneud i annog y sawl gyda chyfoedion cymdeithasol. Ar ben hynny, doedd braidd ddim sylw wedi cael ei roi i ddatblygu grwpiau cyfeillgarwch newydd trwy ymglymiad mewn gweithgareddau adeiladol.

3.21 Daethom i'r casgliad cyffredinol bod gwaith effeithiol gyda rhwydweithiau allweddol plant a phobl ifanc wedi cael ei wneud yn dda mewn dim ond dau o'r achosion a arolygwyd.

### Mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol

3.22 Yn gynharach fe ddisgrifiom y pwysigrwydd o ba mor dda mae plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u grymuso i fynd i'r afael ag amrediad o faterion a rhwystrau strwythurol nad ydynt o reidrwydd yn gallu ymdrin â hwy trwy eu hymdrechion eu hunain yn unig.

3.23 Fe ddarganfuom esiamplau o arfer da ble roedd YOTs wedi cefnogi plant a phobl ifanc i drafod, rheoli ac yn aml oresgyn amrediad eang o rwystrau strwythurol. Roedd plant a phobl ifanc wedi cael eu cefnogi i ymdrin â rhwystrau a phrofiadau a oedd wedi effeithio ar eu gallu i gymryd rhan mewn addysg a chyflogaeth, neu helpu gyda'u hanghenion camddefnyddio sylweddau, neu iechyd a llety.

**Esiampl o arfer nodedig: mynd i'r afael â rhwystrau strwythurol**

Roedd y rheolwr achos a'r gweithiwr cymdeithasol wedi cefnogi Cherry i sicrhau lle ar gwrs i bobl sy'n gadael gofal mewn gofal plant. Cadarnhaodd Cherry mai dyma oedd ei phrif uchelgais ac roedd yn edrych ymlaen at y profiad. Roedd ei chofnod troseddol wedi bod yn rhwystr amlwg ond nid oedd gweithwyr wedi cael eu rhwystro ac roeddent wedi'i chefnogi i ymdrin â'r rhwystr yma. Fe dreulion nhw amser gyda hi yn archwilio sut gallai hi wneud i'r camgymeriadau roedd hi wedi'u gwneud yn ei bywyd weithio iddi trwy bwysleisio'r pethau roedd hi wedi'u dysgu i'r coleg. (YOT Dinas Caerlŷr)

3.24 I'r gwrthwyneb, roedd hefyd esiamplau o gefnogaeth annigonol. Nid oedd diffyg ymateb oddi wrth asiantaethau a sefydliadau eraill wedi cael ei ddilyn i fyny gan reolwyr achos. Roedd plant a phobl ifanc yn sôn am deimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg ymglymiad hwn ac roeddent yn teimlo bod dim byd y gallent ei wneud i newid eu sefyllfaoedd personol. Ar adegau, roedd rheolwyr achos hefyd yn teimlo bod dim pŵer ganddynt. Roedd hyn yn siomedig oherwydd ni welsom lawer o dystiolaeth o ymdrechion go iawn yn cael eu gwneud i oresgyn rhai o'r rhwystrau hyn.

3.25 I egluro'r pwynt yma, mewn un achos, roedd llawer o gofnodion bod mam person ifanc yn mynd i gael ei herlyn oherwydd presenoldeb gwael ei mab yn yr ysgol, er hyn nid oedd yr YOT yn gwbl ymwybodol o'r rhesymau sylfaenol dros y presenoldeb gwael. Nid oedd unrhyw ymdrech wedi cael ei wneud i gwrdd yn ffurfiol gyda'r ysgol. Mewn achos arall, cafodd person ifanc ei roi mewn uned cyfeirio disgyblion oherwydd ei ymddygiad aflonyddus. Tra roedd yno, fe ddywedodd wrth ei reolwr achos nad oedd bod mewn

dosbarth o 25 bachgen aflonyddus yn helpu iddo wella ei ymddygiad. Nid oedd neb wedi gwrando neu weithredu ar ei farn ac fe stopiodd fynychu'r ysgol yn gyfan gwbl.

### Creu cyfleoedd ac integreiddiad cymunedol

3.26 Fe edrychom ar ba waith oedd wedi cael ei wneud i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan yn weithredol fel aelodau o'u cymunedau ac i ymrwymo mewn neu gael profiad o weithgareddau adeiladol neu werth chweil. O safbwynt ymatal, mae'r rhain yn elfennau pwysig oherwydd maen nhw'n gwella ansawdd bywyd unigolyn ac felly'n cyfrannu at eu llwybrau i ffwrdd o droseddu.

3.27 Dyma oedd y maes ble gwelsom y lleiaf o dystiolaeth o waith effeithiol yn cael ei wneud. Darganfuwyd bod plant a phobl ifanc wedi sefydlu eu cysylltiadau eu hunain yn eu cymunedau mewn llai na hanner yr achosion a arolygwyd. Fe edrychom hefyd am dystiolaeth eu bod yn cymryd rhan weithgar mewn rhyw fath o weithgaredd cadarnhaol neu adeiladol ac fe ddarganfuom hwn mewn llai na thraean yr achosion. Siomedig oedd y canfyddiadau hyn.

3.28 Fe welsom, fodd bynnag, rai esiamplau ardderchog lle roedd y plant a phobl ifanc yn credu bod y profiad o gymryd rhan yn eu cymuned wedi trawsnewid eu bywydau a chefnogi ymataliad.

**Esiamplau o arfer nodedig: creu cyfleoedd ac ymrwymiad cymunedol**

Roedd y rheolwr achos wedi bod yn weithgar iawn yn ei gysylltiadau gyda'r coleg. Roedd Angus wedi derbyn adborth cadarnhaol am ei berfformiad academaidd ac roedd hyn wedi arwain ato'n rhoi cynnig ar waith gwirfoddol a oedd wedi cael ei drefnu ar ei gyfer. Roedd hyn gydag oedolion ifanc ag anawsterau dysgu. Roedd y rheolwr achos wedi sylwi ar botensial Angus ac wedi'i arwain i ddatblygu ei dalentau. (YOS Camden)

Roedd yr YOT wedi trefnu i Amy wneud ei lleoliad gwneud iawn yn rhoi parseli at ei gilydd ar gyfer cartrefi plant amddifad tramor. Fe gafodd hyn wir effaith ar Amy ac wedi i'r lleoliad ddod i ben fe gychwynnodd wirfoddoli yn y prosiect. Fe esboniodd bod helpu achos da yn bwysig ac roedd wedi ei helpu i beidio ag ail-droseddu. Roedd yr ymdeimlad o gyfrifoldeb a phwysigrwydd (iddi hi) wedi newid ei bywyd. (YOT Dwyrain Sussex)

Tra'n cymryd rhan mewn lleoliad gwneud iawn, soniodd Reece wrth y gweithiwr ei bod yn credu y dylai fynd i'r coleg. Fe drosglwyddwyd y neges yn sydyn i'r rheolwr achos a drefnodd gyfarfod yn syth gyda Reece i siarad am gyrsiau coleg. Yna fe ffoniodd y coleg i wneud y trefniadau cychwynnol. Dechreuodd Reece yr wythnos ganlynol. Fe ddisgrifiodd y foment yma fel trobwynt yn ei fywyd. Fe bwysleisiodd ei barch ar gyfer ei reolwr achos am drefnu'r cyfle iddo fynd i'r coleg. Roedd hon yn esiampl dda o reolwr achos yn gweithredu'n gyflym mewn ymateb i gais a wnaed gan berson ifanc. (YOT Darlington)

### Hyrwyddo hunaniaeth gadarnhaol a hunanwerth

3.29 Mae hunaniaeth yn gysyniad eang, yn cynnwys amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys canfyddiadau o'ch hunan ac, yn bwysicaf oll, bod y plentyn neu berson ifanc yn uniaethu fel 'troseddwr' neu 'dramgwyddwr'. Mae ymchwil ymatal yn pwysleisio pwysigrwydd y math hwn o hunan naratif mewn ffyrdd tramgwyddus o fyw plant a phobl ifanc. Lle mae plentyn neu berson ifanc yn mynegi awydd i newid, gall hyn fod yn arwydd pwysig o newid mewn hunaniaeth, un y dylai ymarferwyr yr YOT allu ei adnabod, ei asesu ac ymateb iddo.

3.30 Gall newidiadau mewn hunaniaeth fod yn gysylltiedig â digwyddiadau bywyd arwyddocaol eraill. Mae'r adroddiad hwn wedi cynnwys nifer o ddyfyniadau ac esiamplau o brofiadau y mae plant a phobl ifanc wedi dweud wrthym sydd wedi cael dylanwad yn ail-lunio neu ail-ddiffinio sut maen nhw'n gweld eu hunain, er enghraifft, dod yn rhiant, profiad gwneud

iawn cadarnhaol, ymyriad allweddol neu ymateb pragmatig i argyfwng, dechrau ym myd gwaith oedolion neu gael eu derbyn gan eraill am bwy ydynt.

3.31 Gellir rhagweld rhai o'r digwyddiadau hyn, gan ddarparu cyfleoedd pwysig i weithwyr nid yn unig ddarparu cymorth a chefnogaeth ymarferol (sydd ynddo'i hun yn gallu hyrwyddo ymrwymiad), ond hefyd atgyfnerthu agweddau positif o newidiadau mewn rôl (dod yn rhiant) neu ffordd o fyw. Mewn sefyllfaoedd eraill mae'n bwysig bod gweithwyr yr YOT yn ymwybodol o'r posibilrwydd o newid cadarnhaol mewn hunanwerth sy'n deillio o gyfleoedd mwy annisgwyl a dros dro o bosib megis dechrau ym myd gwaith oedolion neu gymryd rhan mewn gweithgaredd adeiladol.

3.32 Gall gymryd amser i blant a phobl ifanc newid sut maen nhw'n gweld eu hunain a'u rolau, ac efallai byddant yn cael trafferth i fynegi newid o'r fath yn glir. O ganlyniad, ni fydd gwaith mae YOTs ac eraill wedi bod yn ei wneud o reidrwydd yn dangos canlyniadau neu'n cael effaith ar unwaith, er hyn, gall gael effaith yn dilyn digwyddiad yn hwyrach mewn bywyd.

**Dyfyniadau gan blant a phobl ifanc am hunaniaeth**

*"Mae'r label 'troseddwr' yn fy nigio. Mae'n fy ngwneud yn drist ac yn achosi embaras. Rydw i wedi gwneud llawer o feddwl ac o ganlyniad i siarad gyda fy ngweithiwr, rydw i'n mynd i gymryd rheolaeth. Rydw i'n mynd i wneud gwell dewisiadau am fy nyfodol a sicrhau fy mod ddim yn mynd i fwy o drwbl. Nid troseddwr fydda i, ond fi fy hun."* (YOT Gwlad yr Haf)

*"O'r blaen, buaswn yn cerdded y strydoedd gyda fy ffrindiau a mynd i drwbl. Rydw i wedi sortio fy mhen allan. Dydw i ddim eisiau bod mewn trwbl nawr. Dydw i ddim eisiau siomi fy merch."* (YOT Dwyrain Sussex)

*"Roeddwn i wedi cyrraedd y gwaelod - roedd jyst angen i mi stopio a chael help. Doedd gen i ddim byd - roeddwn yn gwerthu fy nillad i brynu cyffuriau, yn cysgu ar y stryd. Roedd rhaid i mi. Roedd y pethau roedden nhw (yr YOT) wedi bod yn sôn amdanyn nhw yn sydyn yn gwneud synnwyr. Tan hynny, roeddwn i wedi bod yn ei anwybyddu a dweud y gwir - roedd jyst yn rhywbeth roedd rhaid i mi wneud."* (YOT Cwm Taf)

*"Mae'r YOT wedi fy helpu i newid sut rwy'n gweld fy hun - fy nghanfyddiad o fy hun. Maen nhw wedi fy helpu i ddangos fy ngalluoedd a sgiliau cerddoriaeth i grŵp o bobl mewn neuadd. Dydw i ddim yn gweld fy hun fel troseddwr nawr. Rydw i nawr wedi gosod nodau newydd ac rydw i'n parchu fy hun ac eraill."* (YOT Dinas Caerlŷr)

3.33 Yn yr arolygiad hwn fe welsom esiamplau o agweddau penodol o hunaniaeth, gan gynnwys cyswllt â throseddu. Yn anffodus, roedd ymatebion yr YOT i'r agweddau hynny a allai arwain at newid cadarnhaol - dod yn rhiant, rolau cymdeithasol eraill, profiadau eraill sy'n newid bywyd a
mynegiadau clir/ymhlyg o awydd neu angen i newid yn amrywio.

3.34 Ym mwyafrif yr achosion perthnasol ac arolygon, roedd YOTs wedi bod yn weithgar yn darparu cymorth a chefnogaeth ymarferol i bobl ifanc a oedd wedi dod yn rhieni. Fe welsom hefyd nifer o achosion ble roeddem o'r farn bod cyfleoedd wedi cael eu colli i ymateb i ddangosyddion a chymhelliant i newid. Mewn rhai achosion roedd ymarferwyr yn cael anhawster yn adnabod ac yn ymateb i faterion yn ymwneud â hunaniaeth. Roedd angen i hyn fod yn rhan fwy canolog o'r broses goruchwylio.

### Ysgogi plant a phobl ifanc

3.35 Dimensiwn allweddol o ymagwedd yn seiliedig ar ymatal ar gyfer arfer yw deall a chydnabod bod rhaid cael persbectif hir dymor at gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc (ac yn wir eu teuluoedd). Mae'n bosib bydd methiannau achlysurol a digwyddiadau o

droseddu ysbeidiol yn rhan o ymatal, hyd yn oed ar ôl gwneud cynnydd. Mae'n hanfodol cymell pawb sydd ynghlwm a pharhau i wneud hynny.

3.36 Gellir ysgogi plant a phobl ifanc mewn dulliau gwahanol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u lefel o gymhelliant i symud i ffwrdd o droseddu. Mae annog eu hymrwymiad trwy gydweithredu dilys a datblygu amcanion ystyrlon ar y cyd ar gychwyn yr ymyriad eisoes wedi cael ei bwysleisio mewn adrannau cynharach o'r bennod hon. Mae'n bosib bydd hefyd angen gwaith cymell ar adegau pan fydd plant a phobl ifanc yn ail-droseddu. Yma, mae angen eu hannog i adnewyddu'u hymdrechion.

3.37 Efallai bydd hefyd angen cefnogi rhieni/gofalwyr sydd wedi digio oherwydd yr hyn maen nhw'n eu hystyried i fod yn fethiant. Ar ben hynny, rhaid i ymarferwyr gydnabod cyraeddiadau a chynnydd a'u hatgyfnerthu mewn modd cadarnhaol.

3.38 Fe edrychom am amrediad o dystiolaeth a oedd yn dangos bod gwaith cymell addas wedi cael ei gwblhau. Roedd hyn yn cynnwys:

- gwerthuso a thrafod adran 'cryfderau' Asset
- y defnydd o dechnegau megis cyfweld ysgogiadol
- gwybodaeth a dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o beth sy'n bwysig neu o ddiddordeb i'r plant a phobl ifanc roeddent yn eu goruchwylio ac a yw hyn yn cael ei ddefnyddio yn ymarferol
- a oedd rhieni/gofalwyr wedi cael eu cefnogi i atgyfnerthu cynnydd yn bositif.

**Esiamplau o arfer nodedig: ysgogi plant a phobl ifanc**

Roedd Sergio wedi cael dedfryd o YRO 12 mis. Roedd ei ymglymiad blaenorol gyda'r YOT wedi arwain ato'n cael ei ddychwelyd i'r llys ac yn cael ei ail-ddedfrydu am dorri amod YRO blaenorol am drosedd o ymosodiad. Roedd y rheolwr achos wedi treulio cyfnod sylweddol o amser gyda Sergio i gael dealltwriaeth well pam roedd wedi methu cydymffurfio. Daeth yn amlwg i'r rheolwr achos bod bywyd Sergio wedi cynnwys tipyn o fethiant. Pan sylweddolodd ei fod wedi gwneud dewisiadau gwael, byddai'n rhedeg i ffwrdd. Dechreuodd y rheolwr achos trwy ganmol Sergio am y mewnwelediad hwn a dilynodd y cyfarfod trwy anfon llythyr wedi'i ysgrifennu â llaw yn ei ganmol. Wedi derbyn y llythyr yma, ffoniodd Sergio y rheolwr achos i ddiolch iddi gan ddweud nad oedd erioed wedi derbyn y math yma o ganmoliaeth o'r blaen. Yna, dechreuwyd proses lle roedd Sergio yn cyfathrebu mwy ac yn datgelu gwybodaeth nad oedd yn hysbys i'r YOT yn flaenorol. Roedd wedi cadw'r 38 apwyntiad statudol ar adeg yr arolygiad ac roedd yr YRO wrthi'n cael ei dynnu'n ôl yn gynnar am gynnydd da. (YOT Darlington)

Roedd y rheolwr achos wedi rhoi tystysgrif i Alka yn dweud mai ef oedd 'Person ifanc y mis'. Cafodd hyn effaith glir arno. Pan gafodd ei gyfweld gan arolygydd, daeth Alka â'r dystysgrif gydag ef. Fe esboniodd pa mor falch roedd yn teimlo a sut roedd hyn wedi ei ysgogi i beidio â throseddu. (YOT Dinas Caerlŷr)

3.39 Nid oedd cydnabod neu ddathlu cyrhaeddiad yn rhywbeth a oedd yn gyffredin. Roedd yr esiamplau a roddwyd hefyd braidd yn anghymesur neu'n dameidiog a ddim yn cael eu cysylltu'n systematig â'r broses goruchwylio. Roeddem yn teimlo bod cyfleoedd i gysylltu'r rhain gyda'i gilydd ond roedd y math yma o ymagwedd fethodolegol yn absennol yn bennaf.

3.40 Roedd y defnydd o ddirymiad cynnar fel cymhelliant posib (fel y nodwyd yn gynharach) yn gynwysedig mewn nifer o achosion. Yn siomedig, ni welsom lawer o dystiolaeth arall o ran ymyriadau a oedd yn defnyddio gwobrwyon/atgyfnerthiadau positif fel techneg i adnabod cyraeddiadau neu newidiadau mewn ymddygiad penodol (er enghraifft, ymgymryd â gweithgaredd dymunol sef bod yn barod am ysgol am wythnos). Mae ymyriadau syml fel y

rhain yn gallu cael eu hintegreiddio i'r gwaith a'u defnyddio o fewn teuluoedd ond ni welsom unrhyw esiamplau o'r math yma o arfer.

3.41 Roedd hefyd yn siomedig darganfod nad oedd rheolwyr achos bob tro'n adnabod neu ddefnyddio'u gwybodaeth o'r math o weithgareddau a oedd yn ysgogi ac ymrwymo'r plant a phobl ifanc roeddent yn eu goruchwylio. Eto, gellir plethu'r rhain i mewn i'r oruchwyliaeth i annog, ymrwymo a darparu atgyfnerthiad positif.

3.42 Nid oedd y defnydd o gyfweld ysgogol yn gyffredin. Gellid bod wedi defnyddio'r fframwaith mewn nifer o achosion, yn arbennig y sawl gydag ychydig gynnydd arwyddocaol neu lle roedd y cynnydd wedi ei oedi.

3.43 Codwyd pryder penodol gan nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol, yn arbennig y sawl a oedd wedi cael sawl cyfnod o oruchwyliaeth. Roedd hyn yn ymwneud â'u profiadau o orfod ailadrodd yr un rhaglenni neu ymyriadau ag yr oeddent wedi'u gwneud ar orchmynion blaenorol. Cwynodd nifer nad oedd hyn yn ddefnyddiol iawn yn eu cymell. Pwysleisiodd hyn y pwysigrwydd o ymarferwyr yn adolygu'r gwaith a wnaethpwyd eisoes a gwerthuso'i effaith yn feirniadol. Roedd angen iddynt ddeall beth oedd wedi gweithio, beth oedd heb a beth roedd angen iddynt ei wneud yn wahanol.

**Dyfyniadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol**

*"Rydw i'n hoff iawn o berfformio a rapio. Dyma'r unig beth dwi'n gallu gwneud yn dda. Mae gen i bethau ar YouTube. Mae llawer o bobl wedi eu gwylio a'u hoffi. Dydw i ddim yn gallu siarad am bethau felly mae'n rhaid i mi sgwennu mewn rap. Mae fy mam wedi eu gwylio achos mae rhywfaint ohono am sut rydw i wedi ei thrin hi'n wael. Fe addawodd yr YOT y bydden nhw'n trefnu i mi fynd i stiwdio a recordio pethau. Dyw e byth wedi digwydd. Arhosais i am chwe mis. Maen nhw wedi fy siomi. Pam ddylwn i drafferthu gyda nhw?"*

*"Rydw i wedi bod yn dod i'r YOT yma am dros dair blynedd. Maen nhw'n dal i wneud pethau nawr roedden nhw'n gwneud pan ro'n i'n 14. Popeth yn rhy sylfaenol, yr un fath o beth bob tro - pethau i blant. Does gen i ddim awydd mynd."*

*"Dwi'n dod achos bod rhaid i fi ond mewn tri mis, alla'i adael... Mynd dros yr un hen bethau...pam fod rhaid i mi wneud yr un hen stwff? Mae'n mynd i mewn drwy un glust ac allan drwy'r llall - hunllef."*

3.44 Fe ddarganfuom fod adran cryfderau Asset wedi'i chwblhau'n llawn ac yn gynhwysfawr mewn ychydig llai na thraean o achosion. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd yn yr achosion eraill, oherwydd mae'r ymchwil ar ymataliad yn pwysleisio'r angen i fabwysu ymagwedd yn seiliedig ar gryfderau.

3.45 Yn gyffredinol, roedd arolygyddion o'r farn bod gwaith ysgogol wedi cael ei wneud yn effeithiol mewn ychydig dros hanner o'r achosion yr edrychom arnynt. Nid oedd hyn yn ddigon da.

### Amrywiaeth

3.46 Mae mynd i'r afael ag anghenion amrywiaeth yn effeithiol yn rhagofyniad angenrheidiol wrth gyflwyno ymyriadau gwir bersonol. Yn unol â hyn, edrychodd yr arolygiad yn ofalus ar sut roedd ffactorau amrywiaeth yn cael eu hasesu a'u trin. Yn benodol, mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o ganfyddiadau penodol o'r gwaith a wnaethpwyd gyda'r sawl a oedd yn Blant sy'n Derbyn Gofal, merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc i gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig a'r sawl gydag anabledd.

3.47 Cydnabyddir bod nifer o ddimensiynau eraill i amrywiaeth (er enghraifft, rhywioldeb neu gred grefyddol) ond nid oedd yn bosib gwneud sylwadau ystyrlon ar y rheini yn seiliedig ar

y data sydd ar gael. Dylid hefyd nodi bod ymchwil academaidd ar ymatal ac amrywiaeth yn brin.

3.48 Roedd cyfanswm o 18 o'r 37 achos a arolygwyd yn Blant sy'n Derbyn Gofal. Roedd hwn yn gyfran uchel ond yn adlewyrchu cofnod sefydledig y garfan hon o droseddau blaenorol ac anghenion mwy cymhleth. Ar ben hynny, mewn saith achos, roedd plant a phobl ifanc naill ai â chynllun Amddiffyn Plant mewn lle neu wedi bod yn destun archwiliadau *Deddf Plant 1989* a.47[3] yn ystod cyfnod eu gorchymyn. Mae hyn yn cadarnhau ymchwil sy'n awgrymu bod Derbyn Gofal yn gallu cynyddu ymglymiad plentyn neu berson ifanc gyda'r system cyfiawnder ieuenctid.

3.49 Roedd y dadansoddiad o'r gwaith a gynhaliwyd ar draws yr wyth maes ymataliad wedi cynhyrchu rhai canlyniadau gwahanol pan gawsant eu cymharu â'r sampl cyfan. Roedd cyfran debyg o hunanasesiadau a holiaduron dulliau dysgu wedi cael eu cwblhau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal o'i gymharu â'r sampl cyfan. Roedd tystiolaeth fod cyfran uwch o hunanasesiadau yna'n cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau ac ymyriadau, efallai oherwydd bod eu hadolygiadau statudol yn nodi bod rhaid bod yn weithredol wrth gymryd barn plant a phobl ifanc i ystyriaeth. Doedd braidd ddim gwahaniaeth o ran sut roedd holiaduron dulliau dysgu yn cael eu defnyddio.

3.50 Ymhlith y gwahaniaethau eraill oedd darganfod bod mwy o waith cyfoedion wedi digwydd gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal o'i gymharu â'r sampl cyfan. Roedd y grŵp hwn hefyd yn fwy tebygol o fod ynghlwm mewn rhyw fath o weithgaredd positif.

3.51 Yn ôl y disgwyl, fe ddarganfuom fod Plant sy'n Derbyn Gofal yn llai tebygol o fod wedi sefydlu cysylltiadau gyda'u cymuned leol, o ystyried bod rhai mewn llety ac yn byw i ffwrdd o adref.

3.52 Roedd chwe merch a menyw ifanc yn y sampl o ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol. Roedd pump o'r chwe achos hyn yn Blant sy'n Derbyn Gofal. Roedd y mwyafrif yn sôn eu bod wedi bod mewn perthnasau sarhaus ble roeddent wedi dioddef ymosodiadau, esgeulustod neu gam-driniaeth rhywiol.

3.53 Er bod y niferoedd yn isel, mae'n arwyddocaol bod bron pob merch a menyw ifanc yn y sampl wedi bod yn y system gofal. Mae hyn yn arwyddol iawn o lefel eu natur agored i niwed a'u hanghenion cymhleth. Gallai hyn awgrymu bod cyflymu Plant sy'n Derbyn Gofal trwy'r system cyfiawnder ieuenctid a nodwyd yn gynharach hyd yn oed yn fwy amlwg i ferched a menywod ifanc.

3.54 O ystyried y cyd-destun yma, fe ddarganfuom, yn ôl y disgwyl, bod gwaith yn ymwneud â theulu a pherthnasau personol wedi cael ei wneud mewn traean o'r achosion yn unig o'i gymharu â gydag ychydig dros hanner o'r sampl cyfan. Mae hyn yn gyson gyda chanfyddiadau arolygiad thematig blaenorol Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi[4] ar Blant sy'n Derbyn Gofal lle darganfuwyd bod perthnasau teuluol ar gyfer y sawl mewn gofal yn aml yn doredig.

3.55 Yn gyfatebol, roedd mwy o waith wedi cael ei wneud gyda merched a menywod ifanc mewn perthynas â chyfoedion (pump o'r chwech achos). Roedd hyn yn adlewyrchu gwaith

---

[3] O dan *Ddeddf Plant 1989*, mae gofyn i'r awdurdod lleol gynnal ymholiadau pan mae'r amgylchiadau hynny a ddiffinnir yn adran 47 o'r Ddeddf yn bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys plentyn yn cael ei gymryd i mewn i amddiffynfa'r heddlu, bod yn destun Gorchymyn Gwahardd Brys neu lle mae rheswm resymol i amau fod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol.

[4] Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2012) *Plant sy'n Derbyn Gofal: Arolygiad o waith Timau Troseddau Ieuenctid gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lleoli i ffwrdd o adref.* Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi Ar gael ar: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/probation/wp-content/uploads/sites/5/2014/03/Looked_After_Children_Thematic_Report_ENG.pdf

a oedd wedi cael ei wneud i hyrwyddo perthnasau diogel a hefyd, efallai, y ffaith wrth i gysylltiadau teuluol dorri, bod grwpiau o ffrindiau wedi dod yn bwysicach.

3.56 Roedd saith o'r sampl o ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol yn dod o gymunedau duon neu leiafrifol ethnig. Roeddent yn adnabod eu hunain fel Du Prydeinig, tri fel ethnigrwydd cymysg ac un fel Asiaidd Prydeinig. Yn nhermau demograffeg, roedd chwech dyn a thri yn Blant oedd yn Derbyn Gofal.

3.57 Darganfuwyd fod plant a phobl ifanc wedi cael rhyw fath o anabledd mewn ychydig dros chwarter o'r achosion a arolygwyd. Roedd yr anableddau a nodwyd yn cynnwys amrediad o gyflyrau gan gynnwys Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ac anhwylderau emosiynol ac ymddygiad. Roedd problemau iechyd corfforol sylweddol gan nifer fechan. Ar gyfer y grŵp hwn, roedd gwybodaeth o'rhunanasesiadau yn fwy tebygol o gael ei defnyddio mewn cynlluniau ac ymyriadau. Roedd cyfradd uwch o gwblhau'r holiaduron dulliau dysgu hefyd nag ar gyfer y garfan ar y cyfan. Yn siomedig, roedd hyd yn oed llai o dystiolaeth bod y rhain yn sail i gynlluniau ac ymyriadau.

3.58 Cofnodwyd mwy o achosion o beidio â chydymffurfio ymysg y plant a phobl ifanc hyn. Roedd yr asesiad o rwystrau ac ymatebion cynlluniedig iddynt, fodd bynnag, yn unol â'r cyfraddau cyffredinol.

3.59 Barnwyd bod gwaith amrywiaeth, yn cwmpasu'r holl agweddau hyn, wedi cael ei wneud yn effeithiol mewn ychydig dros hanner yr achosion. Nid oedd hyn yn dderbyniol.

### Ymagweddau adferol

3.60 Roedd ymagweddau adferol wedi'u hymgorffori'n dda yng ngwaith mwyafrif yr YOTs a arolygom. Roedd gwaith gwneud iawn a/neu yn canolbwyntio ar y dioddefwr yn amlwg mewn dau draean o'r sampl. Fel gyda chyn ddefnyddwyr gwasanaeth, bu i'r arolygyddion ddarganfod mai profiadau cymysg oedd gan ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol o waith cyfiawnder adferol. Roedd cyfweliadau gyda rheolwyr achos hefyd wedi datgelu ychydig amwysedd am sut roedd gwaith gwneud iawn yn benodol yn cael ei ddefnyddio. Fe adroddon nhw nad oedden nhw wedi cael llawer o lais o ran beth fyddai'n effeithiol ac roedd plant a phobl ifanc yn aml yn cael eu slotio i mewn i brosiectau cyfredol. Yn aml nid oeddent yn berthnasol iddynt nac yn cefnogi gwaith ymatal. Roedd llawer gormod o amser yn cael ei dreulio yn 'gwthio' plant a phobl ifanc trwy waith di-dâl ac roedd hyn yn arwain at orfod cymryd camau gorfodi.

3.61 Fe welsom rai esiamplau ardderchog o sut allai gwaith adferol a gwneud iawn ar ei orau gynhyrchu buddion amrywiol yn nhermau gwella hunanddelwedd, hunanhyder a hunan-werth; ymrwymiad gyda chymunedau lleol; derbyniad mewn lleoliadau oedolion neu 'sesiynau blasu' o'r byd gwaith sydd wedi ysbrydoli uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

**Esiamplau o arfer nodedig: ymagweddau adferol**

Yn dilyn cyswllt gyda dioddefwr Wayne, roedd yr YOT wedi penderfynu gosod lleoliad lle byddai Wayne yn peintio ffens gardd y dioddefwr. Dyna oedd dymuniad y dioddefwr ac fe gytunodd Wayne, er ei fod yn bryderus. Wrth gyrraedd y lleoliad, roedd Wayne yn ofnus iawn ac ni allai gyfnewid unrhyw eiriau ystyrlon gyda'r dioddefwr. Ar ôl amser, fe ymddiheurodd Wayne am ddwyn. Fe ddechreuodd hyn sgwrs gyda'r dioddefwr ac fe esboniodd Wayne pam y dechreuodd ddwyn. Roedd y lleoliad wedi'i drefnu am dair awr ond roedd Wayne yn aros am y diwrnod cyfan. Yn ystod yr amser yma, fe rannodd y dioddefwr gydag ef ei fod ef hefyd arfer dwyn pan roedd yn ifancach, ac wedi mynd i'r ddalfa. Roedd e bellach yn berchen ar fusnes garddio. Cafodd Wayne ei synnu gan hyn ac yn nes ymlaen, fe ddywedodd wrth ei reolwr achos, os oedd ei ddioddefwr wedi llwyddo gwneud hynny a newid ei fywyd, roedd yn bosib iddo yntau wneud yr un peth. (YOT Darlington)

Roedd y dull o gynllunio, rheoli a chyflwyno'r lleoliad gwneud iawn yn ardderchog. Gofynnwyd i Sol beth hoffai wneud. Soniodd ei fod wedi cael digon o'r holl sbwriel yn ei gymdogaeth a hoffai glirio'r llanast. Yna, fe weithiodd y rheolwr achos (a'r gweithiwr gwneud iawn) gyda Sol i ddyfeisio cynllun a fyddai'n effeithiol. Trwy weld y gwahaniaeth roedd ymdrechion Sol yn eu gwneud a chlywed sut roedd pobl yn ddiolchgar am ei gyfraniad, fe benderfynodd archwilio gyrfa mewn rheoli gwastraff. Roedd bellach yn mynychu Connexions bob wythnos i wireddu ei freuddwyd. (YOT Dinas Caerlŷr)

3.62 Fel gyda chyn ddefnyddwyr gwasanaeth, roedd rhaid o'r defnyddwyr gwasanaeth cyfredol hefyd yn gweld agweddau o'r gwaith gwneud iawn a’r gwaith canolbwyntio ar ddioddefwyr yn ddi-fudd. Cwynodd nifer fechan fod y gwaith gwneud iawn yn creu label, yn ddiflas a/neu yn feichus. Soniodd eraill nad oeddent wedi caelael unrhyw drafodaeth am eu lleoliad gwneud iawn nac am y math o waith yr hoffent ei wneud. Nid oedd y diffyg ymglymiad yma yn awgrymu ymagwedd bersonol.

3.63 Mynegodd rhai rheolwyr achos bryderon am sut roedd gwaith gwneud iawn, yn benodol, yn cael ei ddefnyddio. Nododd un bod gwaith gwneud iawn a oedd yn cael ei wneud gan rai plant a phobl ifanc fel *"swydd ddi-dâl i rai iau".* Fe ddarganfuom mewn saith achos, roedd gwneudiawn yn ymddangos fel cosb wedi'i atodi i'r orchymyn ei hun gyda braidd ddim tystiolaeth o beth roedd 'gwneud iawn' yn ei gynnwys neu beth oedd ei fwriad gyda'r plentyn neu berson ifanc.

3.64 Roedd yn glir bod ymyriadau adferol yn hanfodol i waith yr YOTs a bod gan yr esiamplau gorau wir botensial am drawsnewidiad. Roeddem o'r farn, fodd bynnag, fod gwaith adferol yn cael ei gyflwyno'n effeithiol mewn llai na thraean o achosion.

## 4. Gwybodaeth a dealltwriaeth o ymataliad

**Cyflwyniad**

Mae'r bennod hon yn rhoi amlinelliad o drafodaethau arolygyddion gyda rheolwyr achos am eu gwybodaeth a dealltwriaeth o theori ymatal, ac i ba raddau mae hyn wedi bod yn sail i'w harferion o ddydd i ddydd.

**Crynodeb**

- Roedd amrywiaeth eang o ran gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferwyr am ymataliad.
- Ychydig yn unig oedd wedi derbyn hyfforddiant ar theorïau ymatal neu sut i'w rhoi ar waith.
- Roedd y mwyafrif yn cyfateb eu gwaith ar ymddygiad tramgwyddus gyda phlant a phobl ifanc ag arferion ymatal.

4.1 Gofynnwyd i reolwyr achos, fel rhan o'u cyfweliadau, i roi sgôr hunanasesu o'u gwybodaeth o theori ymatal ac i ba raddau roeddent yn rhoi hwn ar waith yn eu harferion o ddydd i ddydd gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5 (gyda 1 yn cynrychioli gwybodaeth/defnydd isel a 5 gwybodaeth/defnydd uchel).

### Gwybodaeth a defnydd ymarferwyr o theori ymatal

4.2 Tra bod nifer fechan o ymarferwyr yn nodi eu bod wedi derbyn swm sylweddol o hyfforddiant ffurfiol ar theori ymatal (fel arfer fel rhan o gymhwyster proffesiynol), mewnbwn cyfyngedig oedd gan y mwyafrif helaeth. Roedd hyn yn amlwg o'u hesboniadau rhannol am theori ymatal a'r potensial i'w rhoi ar waith yn ymarferol.

4.3 Cafwyd ymateb gan gyfanswm o 21 rheolwr achos i'r ddwy sgôr (gwybodaeth am theorïau ymatal a sut i'w rhoi ar waith yn ymarferol). Roedd y canlyniadau ar gyfartaledd yn dangos bod eu gwybodaeth a'u defnydd yn gyffredinol yn debyg.

4.4 Nododd dadansoddiad o'r trafodaethau mwy manwl gyda rheolwyr achos (a) bod gan ymarferwyr rywfaint o ddealltwriaeth gyffredinol am ymatal, er nid oedd hyn yn fanwl, a (b) er bod eu gwybodaeth yn gyfyngedig, roedd staff yn teimlo eu bod wedi rhoi egwyddorion ymatal ar waith yn eu harferion gwaith.

4.5 Fe ddarganfuom fod dryswch ymysg rhai rheolwyr achos rhwng egwyddorion ymatal ac egwyddorion 'beth sy'n gweithio'. Yn rhy aml, roedd gorgyffwrdd gweddol syml yn eu hesboniad. Roeddent yn cysylltu gwaith ymatal gydag ymdrin â 'ffactorau risg'. Tra bod hyn yn berthnasol, nid oeddent yn gallu darparu adroddiad llawn. Nododd nifer o reolwyr achos, er nad oedd theori ymatal yn amlwg wedi bod yn sail i'w gwaith, roeddent yn gallu gweld 'wrth edrych yn ôl' sut roedd eu gwaith wedi cynnwys elfennau ohono. Yn ddieithriad, roedd pob un ohonynt yn croesawu'r ymagwedd hon.

4.6 Roedd yn amlwg bod gan nifer fechan o reolwyr achos sylfaen a dealltwriaeth ardderchog o theori ymatal, roeddent yn gallu cyfeirio at ymchwil berthnasol a nodi rhai o'r syniadau a goblygiadau allweddol ar gyfer arferion gwaith. Roedd yn ddiddorol bod y rheolwyr achos hyn ymhlith y rhai mwy diymhongar yn eu sgorau hunanasesu o'u gwybodaeth o ymatal a'i ddefnydd yn ymarferol.

4.7 Roedd gan nifer o reolwyr achos o leiaf ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth ac roeddent yn gallu amlinellu rhai themâu ymatal pwysig. Yn galonogol (o ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn), y ffactorau mwyaf adnabyddus oedd y rhai yn ymwneud â sefydlu a chynnal perthnasau proffesiynol, cryf ac ymddiriedus.

4.8 Ni soniodd llawer o reolwyr achos eu bod wedi derbyn unrhyw hyfforddiant estynedig at theori ymatal. Soniodd nifer eu bod wedi cael *"sesiynau briffio"* neu *"sesiynau un tro"* ar ymatal cyn yr arolygiad, tra bod eraill yn cofio ei fod yn cael ei gynnwys yn hyfforddiant y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer y Dystysgrif Broffesiynol ar gyfer Arfer Effeithiol (Cyfiawnder Ieuenctid).

4.9 Dywedodd eraill gyda chymwysterau proffesiynol mewn gwaith ieuenctid neu gyfiawnder troseddol hefyd, er eu bod wedi cael mewnbwn ar rai cyrsiau ar ymatal fel rhan o'u hyfforddiant, roedd hwn wedi cael ei gyflwyno fel pwnc penodol yn hytrach na darparu'r fframwaith neu safbwynt ehangach ar gyfer arferion gwaith.

4.10 Yn gyffredinol, fe ddaethom i'r casgliad nad oedd gwybodaeth rheolwyr achos am ymatal a sut i'w roi ar waith mewn arferion gwaith yn ddigon manwl ac fe ganfuom ychydig o ddryswch am ei gysyniadau craidd. Yn benodol, fe ddarganfuom beth oedd yn ymddangos fel cyfuniad rhy syml o arferion yn seiliedig ar droseddu a meddylfryd ymatal, ac yn sgil hyn, diffyg eglurdeb o ran y berthynas rhwng y ddau. Ychwanegid yn aml at y diffyg dealltwriaeth hwn hefyd gan y cyd-destun gweithredol roedd y gweithwyr yn gweithio ynddo.

## 5. Sylwadau i gloi

5.1 Fel rydym wedi gweld, ni fydd ymagwedd 'un dull i bawb' at ymatal yn effeithiol, ac mae'n hanfodol bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a bod eu hamgylchiadau a'u hanghenion unigol yn cael eu hystyried. Yn y modd hwnnw, mae'r gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno yn fwy tebygol o fod yn effeithiol wrth hyrwyddo ymataliad.

5.2 Maecyhoeddi'r adroddiad hwn yn cyd-fynd ag arolwg y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfiawnder ieuenctid. Gobeithiwn fod ein canfyddiadau yn werthfawr i'r arolwg, yn benodol, ein canfyddiad mai o blith yr holl bethau sy'n gallu hyrwyddo ymataliad, yn ôl y sawl sy'n ymatal y gwnaethom eu cyfweld, perthynas ymddiriedus, agored a chydweithredol gyda pherson proffesiynol yw'r un pwysicaf. Mae angen sgiliau a dyfalbarhad i sefydlu a chynnal y perthnasau hyn.

5.3 Gobeithiwn y bydd ein canfyddiadau o ddiddordeb i ymarferwyr, ac o ddefnydd perthnasol yn eu gwaith i annog a chefnogi plant a phobl ifanc i ymatal rhag troseddu ac i gyflawni eu potensial fel oedolion sy'n parchu'r gyfraith.

## Atodiad 1 - Geirfa

| | |
|---|---|
| Asset/AssetPlus | Dull asesu strwythuredig yn seiliedig ar ymchwil a ddatblygwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn edrych ar drosedd y plentyn neu berson ieuenctid, amgylchiadau personol, agweddau a chredoau sydd wedi cyfrannu at eu hymddygiad tramgwyddus |
| DTO | Gorchymyn cadw a hyfforddi |
| ETE | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysgu unigolyn a gwella'u rhagolygon am gyflogaeth |
| EM | Ei Mawrhydi |
| Arolygiaeth Prawf EM | Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi |
| Risg o niwed i eraill | Dyma'r term a ddefnyddir yn gyffredinol gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi i ddisgrifio gwaith i amddiffyn y cyhoedd, yn bennaf gan ddefnyddio ymyriadau cyfyngol, i leihau cymaint â phosib ar gyfle'r unigolyn i ymddwyn mewn modd sy'n peri risg o niwed i eraill |
| Diogelu | Y gallu i ddangos bod pob cam rhesymol wedi cael eu cymryd i leihau'r risg bod plentyn neu berson ifanc yn dod i niwed |
| YJB | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr |
| YOT/YOS/YJS | Tîm Troseddau Ieuenctid/Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid/Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |

## Atodiad 2 - Rôl a chod ymarfer yr arolygiaeth

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar ein gwefan:

**http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation/**

Corff cyhoeddus yw'r arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno sylw ar arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall sy'n dod o fewn ei chylch gorchwyl ysgrifennu at:

*Prif Arolygydd Prawf ei Mawrhydi*
*1st Floor, Manchester Civil Justice Centre*
*1 Bridge Street West*
*Manceinion M3 3FX*

## Atodiad 3 - Cyfeiriadau


Maruna, S. (2001) *Making Good: How Ex-Convicts Reform and Rebuild Their Lives*, Washington DC.: APA Books.

Rutherford, A. (1985) *Growing Out of Crime*, Harmondsworth: Penguin.

Clarke, R.V. a Cornish, D.B. (1985) 'Modelling Offender's Decisions: A Framework for Research and Policy', yn Tonry, M. a Morris, N. (gol) *Crime and Justice: An Annual Review of Research*, Chicago: Gwasg Prifysgol Chicago.

Sampson, R. a Laub, J. (2001) 'Understanding desistance from crime: An annual review of research', *Crime and Justice, cyf*. 26, rhif. 28: 1-58.

Giordano, P.C., Cernkovich, S.A. a Rudolph, J.L. (2002) 'Gender, crime and desistance: Toward a theory of cognitive transformation', *American Journal of Sociology*, 107: 990-1064.

Canton, R. (2012) 'The point of probation: On effectiveness, human rights and the virtues of obliquity', *Criminology and Criminal Justice*, 13(5): 577-593.

Barry, M. (2009) 'Promoting Desistance Among Young People', yn Taylor, W., Earle, R. a Hester, R. (gol) *Youth Justice Handbook: Theory, Policy and Practice*, Cullompton: Willan Publishing

Barry, M. (2010) 'Youth transitions: From offending to desistance', *Journal of Youth Studies,* cyf. 13, rhif. 1: 121-136

Gray, P. (2013) *Report of research on Youth Offending Team Partnerships and social context of youth crime*, Plymouth: Prifysgol Plymouth.

Moffitt, T.E. (1993) 'Adolescence-limited and life-course persistent antisocial behaviour: A developmental taxonomy', *Psychological Review*, cyf.100, rhif.4: 674-701.

McNeill, F. a Weaver, B. (2010) *Changing Lives? Desistance Research and Offender Management*, Glasgow: Scottish Centre for Crime and Justice Research.

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (2012) *Plant sy'n Derbyn Gofal: Arolygiad o waith Timau Troseddau Ieuenctid gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac sy'n cael eu lleoli i ffwrdd o adref,* Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.
Ar gael ar: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/probation/wp-content/uploads/sites/5/2014/03/Looked_After_Children_Thematic_Report_ENG.pdf